# Mwynhewch y Parc, Gofalwch am y Lle

# Enjoy the Park, Protect the Place

## Strategaeth Rheoli Cyrchfan Bannau Brycheiniog 2026–2031

Tystiolaeth, trafodaeth a data

## Cynnwys


Cyflwyno'r Strategaeth ........ 5

Sut y datblygwyd y Strategaeth? ........ 5

1. Ein nodau ........ 6

Y rhesymeg dros ein nodau ........ 7

1.1 Twristiaeth adfywiol ........ 7

1.2 Pam mae Twristiaeth yn bwysig i economi leol y Parc Cenedlaethol ........ 7

2. Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2023-2028: cyflawni ein cenadaethau ........ 10

3. Tywydd a newid yn yr hinsawdd – yr effaith ar nifer yr ymwelwyr ........ 11

3.1 Gallai newid yn yr hinsawdd ddenu mwy o ymwelwyr i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. ........ 12

3.2 Astudiaeth achos sy'n archwilio effaith y tywydd ar nifer yr ymwelwyr ........ 14

3.4 Ystyried un o effeithiau eraill newid yn yr hinsawdd – llifogydd ........ 15

4. Ein nodau a'n hamcanion ........ 15

5. Nod 1: rheoli ymwelwyr yn ein hatyniadau naturiol. ........ 16

5.2 A fyddai gwella'r seilwaith yn creu mwy o alw? ........ 16

5.3 Lledaenu'r llwyth? ........ 17

6: Annog ymwelwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol. ........ 17

6.1 Y sefyllfa sydd ohoni ........ 18

Pwyntiau gwefru trydan ........ 19

Teithio ar y trên: ........ 19

Bysiau:. ........ 19

Beicio: ........ 20

Tacsis:. ........ 20

6.2 Y broblem ........ 20

6.3 Parcio a Theithio – cynllun realistig ar gyfer y dyfodol? ........ 20

6.4 Astudiaeth Achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ymateb i broblemau parcio ........ 21

6.5 Teithiau ymwelwyr tramor ........ 23

7. Seilwaith ymwelwyr ac ansawdd dŵr ........ 25

7.1 Seilwaith ymwelwyr – toiledau ........ 25

7.1.1 Astudiaeth Achos: Parc Cenedlaethol Loch Lomond a'r Trossachs ........ 26

7.1.2 Toiledau mewn trefi a phentrefi ........ 27

7.2 Rheoli dŵr gwastraff yn ystod digwyddiadau ........ 27

7.3 Mwynhau dŵr ........ 27

Amcan 1 – Darparu presenoldeb ar-lein effeithiol ar gyfer y Parc Cenedlaethol fel cyrchfan i ymwelwyr ........ 28

7.4.1 Rheoli'r galw ..... 28
7.4.2 Parciau Cenedlaethol fel brand ..... 28
7.4.3 Effaith y cyfryngau cymdeithasol wrth greu galw ..... 28
8. Nod 2: rheoli ymwelwyr er budd ein cymunedau – llwybr i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth trefi marchnad. ..... 32
8.1 Rheoli'r nawr, buddsoddi yn y dyfodol. ..... 33
8.1.1 Creu a hyrwyddo rhwydwaith o drefi marchnad ..... 33
8.1.2 Profiad gyrru gyda phwyntiau gwefru trydan ..... 34
9. Amcan 4 – llunio canllawiau ar gyfer digwyddiadau ym mhob rhan o'r parc ..... 35
10. Amcan 5 – adeiladu'r dull partneriaeth gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i reoli a hyrwyddo'r gyrchfan trwy gydol y flwyddyn ..... 37
Ein partneriaid allweddol ar gyfer cyflawni'r Strategaeth yw: ..... 37
10.1 Twristiaeth Bannau Brycheiniog (neu BBT) ..... 37
10.2 Awdurdodau Lleol ..... 38
11. Pobl a chymunedau: Cefnogi ein busnesau ..... 39
11.1 Hyfforddiant ..... 39
11.2 Llysgenhadon ..... 39
11.2.1 Modiwl llysgennad wyneb yn wyneb ar gyfer busnesau yn y Parc ..... 39
11.2.2 Gwyliau/digwyddiadau ar gyfer Llysgenhadon nad ydynt wedi'u lleoli yn y Parc ... 40
11.3 Cyfleoedd rhwydweithio i fusnesau ..... 40
11.4 Cyfathrebu a marchnata ar y cyd ..... 40
12. Adnoddau i gyflawni'r strategaeth ..... 41
12.1 Adnoddau o fewn cyrff cyhoeddus ac elusennau ..... 42
12.1.2 Wardeiniaid, staff cwrdd a chyfarch a gwirfoddolwyr ..... 42
12.1.3 Canolfannau ymwelwyr ..... 43
13 Cefndir ..... 45
13.1 Cyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â Rheoli Cyrchfan. ..... 45
13.1 Canllawiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ..... 45
13.2 Adroddiad Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy ..... 45
13.3 Cyd-destunau polisi – Y cefndir yr ydym yn rheoli'r gyrchfan yn ei erbyn ..... 46
13.3 Polisi ehangach Llywodraeth Cymru ..... 46
13.3.1 Polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thwristiaeth ..... 46
13.3.2 Casgliad ar effeithiau polisi ..... 48
13.3 Effeithiau'r pandemig ..... 50
Atodiadau ..... 52

Atodiad 1: data ........ 52

1.1 Ble y gall ymwelwyr aros yn y Parc Cenedlaethol? ........ 52

Data STEAM ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – ffigurau diweddaraf 2024 o gymharu â 2023 ........ 56

1.2. Ein hymwelwyr ........ 56

1.2.1 Arolwg Ymwelwyr 2024 – canfyddiadau. ........ 56

1.3 Data STEAM ........ 57

Data cymharol Steam – penawdau o'r 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ........ 57

Atodiad 2: Premiymau treth gyngor o fewn ffiniau'r Parc ........ 59

Atodiad 3: Strategaethau blaenorol sy'n ymwneud â thwristiaeth ........ 61

Atodiad 3.1.1 Y blaenoriaethau ar gyfer Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog 2017-2022 ........ 61

Atodiad 3.1.1 Y blaenoriaethau ar gyfer Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog 2017-2022 ........ 61

Atodiad 3.1.3 Strwythurau pwyllgorau ........ 63

Atodiad 3.2 Cynllun Rheoli Ymwelwyr Bannau Brycheiniog 2015 ........ 63

Atodiad 3.3 Strategaeth a Chynllun Gweithredu Trafnidiaeth Gynaliadwy Sero Net Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Chwefror 2023 ........ 64

Atodiad 4: Arolwg ymwelwyr 2024 ........ 65

Atodiad 5: data cymharol ar ymwelwyr â Pharciau Cenedlaethol y DU (yn nhrefn esgynnol nifer yr ymwelwyr blynyddol ar gyfartaledd). ........ 70

Atodiad 6: ymgynghoriad ........ 70

Croeso i'r papur tystiolaeth, trafodaeth a data ar gyfer "Mwynhewch y Parc, Gofalwch am y Lle/Enjoy the Park, Protect the Place", Strategaeth Rheoli Cyrchfan Bannau Brycheiniog 2026–2031.

Bydd y Strategaeth ei hun yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio fel Awdurdod Parc Cenedlaethol, a'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid, i reoli'r Parc Cenedlaethol fel Cyrchfan i ymwelwyr yn ystod y pum mlynedd nesaf – 2026 i 2031.

# Cyflwyno'r Strategaeth

Mae'r Strategaeth wedi cael ei datblygu dros ddwy flynedd – 2024 a 2025.

Mae'r papur hwn yn rhoi mwy o fanylion ar y dystiolaeth, y drafodaeth a setiau data safonol y diwydiant a ddefnyddir i helpu i ddatblygu'r nodau a'r amcanion

Mae **adrannau 1, 2 a 3** yn disgrifio ac yn archwilio:

- Ein nodau a'r rhesymeg dros symud tuag at dwristiaeth adfywiol a gwella'r budd y mae twristiaeth yn ei roi i'n heconomi leol.
- Sut mae'r Strategaeth hon yn cyd-fynd â'n Cynllun Rheoli a'r cenadaethau a ddisgrifir ynddo.
- Effaith y tywydd ar y dewis y mae ymwelwyr yn ei wneud ynghylch ble i fynd ar wyliau ac effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd.

Mae **adrannau 4 i 11** yn amlinellu'r amcanion y mae'r Strategaeth yn eu cynnig. Mae dau nod craidd, a phum amcan. Bydd angen cyflawni'r ddau nod craidd er mwyn cyflawni llawer o'r amcanion. Mae adrannau 4 i 11 o'r Strategaeth yn disgrifio'r rhain a'r data y mae'r rhesymeg dros eu cynnig yn seiliedig arno, yn cynnig astudiaethau achos perthnasol o Barciau Cenedlaethol eraill yn y DU, ac yn awgrymu'r blaenoriaethau i'w cyflawni.

Mae **adrannau 12 a 13** yn disgrifio'r cefndir polisi y datblygwyd y Strategaeth yn ei erbyn ar gyfer yr Awdurdod, y Gyrchfan Gynaliadwy, ei bartneriaid, ac ar gyfer y busnesau yn y Parc Cenedlaethol. Maent hefyd yn amlinellu'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i ddechrau gweithio ar y Strategaeth a'r camau nesaf sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion.

Mae **atodiadau 1 i 7** yn cynnig archwiliad manylach o'r data a ddefnyddiwyd i lunio'r Strategaeth.

## Sut y datblygwyd y Strategaeth?

Mae'r strategaeth wedi bod yn cael ei pharatoi ers dechrau 2024. Mae atodiad 6 yn rhoi manylion y sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw. Yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2024, cytunodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar y broses, a chynhaliwyd dau weithdy ar gyfer Aelodau'r Awdurdod yn 2024 a 2025.

Mae Twristiaeth Bannau Brycheiniog yn cynrychioli busnesau lleol sy'n gweithio ym meysydd twristiaeth a lletygarwch. Cafodd y Parc Cenedlaethol ei gydnabod fel cyrchfan gan Croeso Cymru yn 2009. Sefydlwyd yr Awdurdod a Twristiaeth Bannau Brycheiniog fel partneriaid sy'n gyfrifol am gysylltu â rhanddeiliaid eraill i fynd ati i reoli a hyrwyddo'r gyrchfan. Fel arfer, yr Awdurdod Lleol sy'n ymgymryd â'r rôl hon (gan weithio gyda sefydliadau twristiaeth), ond dewiswyd yr Awdurdod yn lle hynny oherwydd sefyllfa anarferol Bannau Brycheiniog lle mae cynifer o awdurdodau lleol yn gyfrifol am wahanol ardaloedd oddi mewn iddo. Sefydlwyd fforwm y Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy gyda'n rhanddeiliaid allweddol i helpu i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r strategaethau a oedd ar waith ar y pryd. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r awdurdodau unedol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a chynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, a Twristiaeth Bannau Brycheiniog (gweler atodiad 3.1.3 am ragor o fanylion).

Ceir rhagor o fanylion am rôl Twristiaeth Bannau Brycheiniog a'i berthynas ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn adran 10 isod. Ymgynghorwyd â Twristiaeth Bannau Brycheiniog ar flaenoriaethau ac iteriadau gwahanol o'r Strategaeth yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac yng nghyfarfodydd aelodau drwy gydol 2024 a 2025.

Cafodd arolwg ymwelwyr, a gynhaliwyd yn ystod y tymor prysur yn 2024, ei ddefnyddio i lywio datblygiad y Strategaeth.

Fel y manylir yn atodiad 6, cafodd ymgyngoreion, gan gynnwys Twristiaeth Bannau Brycheiniog, Croeso Cymru, y Fforwm Mynediad Lleol, a chynghorau tref a chymuned, ymhlith eraill, gyfle i helpu i lunio'r Strategaeth ac yna roi sylwadau arni wrth iddi gael ei datblygu.

Bydd angen ymgynghori parhaus i lunio, diffinio a chyflawni'r cynllun gweithredu.

# 1. Ein nodau

Ein nod yw bod yn arweinwyr ym maes 'Twristiaeth Adfywiol' sy'n golygu ymdrechu i sicrhau bod twristiaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol net i'n Parc Cenedlaethol, yn hytrach nag osgoi effeithiau negyddol yn unig. Yn y modd hwn, mae twristiaeth adfywiol yn fwy uchelgeisiol na thwristiaeth gynaliadwy. Rydym yn awyddus i gefnogi gweithgarwch datblygu twristiaeth sy'n cyfrannu at wella ac adfywio lleoedd a chymunedau, yn helpu i leihau allyriadau carbon ac yn sicrhau bod mwy o natur yn cael ei hadfer, gan sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn berthnasol i anghenion pawb ar yr un pryd.

Ein nod yw sicrhau mwy o fudd economaidd i gymunedau'r Parc Cenedlaethol o'r ymwelwyr rydym yn eu croesawu bob blwyddyn – tua 4 miliwn ohonynt i gyd. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddarparu a/neu wella

seilwaith a gwybodaeth i ymwelwyr, gan osgoi effeithiau negyddol ar gymunedau, natur a'r hinsawdd hefyd.

# Y rhesymeg dros ein nodau

Mae'r adran hon yn esbonio pam mae'r Strategaeth yn awyddus i flaenoriaethu twristiaeth adfywiol a chynyddu'r budd economaidd y mae twristiaeth yn ei roi i'r cymunedau lleol.

## 1.1 Twristiaeth adfywiol

Yn 2024, cyhoeddodd Parciau Cenedlaethol y DU uchelgais ar y cyd i ddod yn arweinwyr wrth gynnig cyfleoedd ar gyfer twristiaeth adfywiol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ymrwymo i weithio tuag at y nod hwn ochr yn ochr â'r parciau eraill. Diffiniwyd y term fel ffordd o reoli twristiaeth i wneud cyfraniad cadarnhaol net. Disgrifiodd y papur yr uchelgais fel un sy'n symud y tu hwnt i dwristiaeth gynaliadwy, y gellid ei grynhoi fel "twristiaeth nad yw'n gwneud unrhyw niwed" tuag at dwristiaeth adfywiol, sy'n anelu at alluogi ymwelwyr i gael effaith gadarnhaol ar y Parc Cenedlaethol y maent yn ymweld ag ef.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog eisiau sicrhau bod ymwelwyr yn gallu deall cenadaethau'r Cynllun Rheoli a chyfrannu atynt. Rydym yn cynnig, fel blaenoriaeth, y dylid datblygu a chyflawni prosiect peilot i ennyn diddordeb ymwelwyr mewn gweithredu adfywiol yn ystod blynyddoedd cyntaf y Strategaeth. Bydd hyn yn cynnig enghraifft gadarnhaol i'r Parciau Cenedlaethol eraill.

| | |
|---|---|
| Cyfraniadau ymwelwyr | Nodi a threialu cyfleoedd i ymwelwyr wneud cyfraniad cadarnhaol i gymunedau a natur yn y gyrchfan. |

| | |
|---|---|
| Visitor contributions | Identify and pilot opportunities for visitors to contribute positively to communities and nature in the destination. |

## 1.2 Pam mae Twristiaeth yn bwysig i economi leol y Parc Cenedlaethol

Mae twristiaeth yn elfen hanfodol o'r economi ym mhob rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yng Nghymru, mae bron i un o bob 10 o bobl yn gweithio ym maes twristiaeth.[1] Yn 2024, roedd 4,056 o swyddi yn y sector twristiaeth o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Creodd ymwelwyr fwy na £434m o fudd economaidd i'r Parc Cenedlaethol.

Yn ôl yr arolwg a gynhaliwyd gan Croeso Cymru ar gyfer Cymru yn 2024:

[1] Gweledigaeth newydd gyffrous ar gyfer economi ymwelwyr Cymru | LLYW. CYMRU


- Yn 2024, cymerodd trigolion y DU 7.61 miliwn o deithiau dros nos yng Nghymru, gyda 22.30 miliwn o nosweithiau a £2.24 biliwn yn cael ei wario yn ystod y teithiau hyn.
- Roedd 38% o'r teithiau dros nos a gymerwyd yng Nghymru yn ystod 2024 yn wyliau. Roedd 34% yn deithiau i ymweld â ffrindiau a pherthnasau.
- Roedd tua 7% o'r holl deithiau yn y DU yn cynnwys arhosiad dros nos yng Nghymru. Roedd cyfrannau gwariant a chyfanswm y nosweithiau yn y DU yn 7% hefyd.
- Hyd cyfartalog teithiau i Gymru yn 2024 oedd 2.9 o nosweithiau a chafwyd gwariant cyfartalog o £295 y daith.
- O gymharu â 2023, roedd nifer y teithiau a gymerwyd yng Nghymru yn 2024 10% yn is, tra bod gwariant 11% yn uwch.[2]

Mae busnesau lletygarwch a manwerthu yn y Parc Cenedlaethol yn dibynnu ar ymwelwyr tymhorol i wneud mwy o elw. Penderfynodd llawer o fusnesau fferm lleol arallgyfeirio i gynnig llety hunanarlwyo (yn enwedig ar ôl clwy'r traed a'r genau).

Mae adroddiadau sy'n ymwneud â dynodiad arfaethedig pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn tynnu sylw at yr effeithiau cadarnhaol y gallai ymwelwyr ei chael ar yr economi leol – gan gynnig cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd i fusnesau. Mae'r "Adroddiad Asesu Economaidd"[3] ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd, a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn nodi:


"Twristiaeth a'r economi ymwelwyr – Amcangyfrifir bod 3.3 miliwn o bobl yn ymweld â'r ardal ymgeisiol bob blwyddyn. Mae enghreifftiau rhyngwladol yn awgrymu y gall nifer yr ymwelwyr gynyddu yn sylweddol yn sgil dynodi parc cenedlaethol. Ystyrir bod ystod cynnydd o ryw 15% i 30% yn ffigur credadwy ar gyfer yr ardal ymgeisiol, a fyddai'n cyfateb i ffigur rhwng 500,000 ac 1 miliwn o ymwelwyr ychwanegol y flwyddyn. Byddai hyn yn cael amrywiaeth o effeithiau, ac un ohonynt fyddai gwariant ychwanegol yn yr economi ymwelwyr, ac amcangyfrifir y byddai hyn rhwng £8 miliwn a £15 miliwn y flwyddyn."

[2] Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (teithiau dros nos yng Nghymru): 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU
[3] https://ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/ymgynghoriad-statudol-parc-cenedlaethol-2025/user_uploads/parc-cenedlaethol-newydd-i-gymru---asesiad-o---r-effaith-economaidd-1.pdf




Mae'r siart hon, sy'n dod o adroddiad STEAM 2024, yn dangos ymwelwyr sy'n aros ac ymwelwyr dydd â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wedi'u dadansoddi yn ôl math o lety (Mae SFR yn cyfeirio at bobl sy'n aros gyda ffrindiau a pherthnasau.
Caiff llety hunanarlwyo ei labelu fel llety heb wasanaeth).

| Visitor Numbers - 2024 - M - Share of Total | Niferoedd Ymwelwyr - 2024 - M - Cyfran o'r Cyfanswm |
|---|---|
| TOTAL | CYFANSWM |
| 3.83m | 3.83m |
| M | M |
| Serviced | Â gwasanaeth |
| Non-Serviced | Heb wasanaeth |
| SFR | Aros gyda ffrindiau neu berthnasau |
| Staying Visitor | Ymwelwyr sy'n aros dros nos |
| Day Visitor | Ymwelwyr dydd |
| Total | Cyfanswm |




*Mae'r siart hon, sy'n dod o adroddiad STEAM 2024 hefyd, yn dangos y budd economaidd (mewn canrannau) y mae ymwelwyr sy'n aros yn ei gynnig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wedi'i ddadansoddi yn ôl math o lety. (Mae SFR yn cyfeirio at bobl sy'n aros gyda ffrindiau a pherthnasau. Caiff llety hunanarlwyo ei labelu fel llety heb wasanaeth).*

| Economic Impact - Historic Prices - £M - Share of Total | Effaith Economaidd - Prisiau Hanesyddol - £M - Cyfran o'r Cyfanswm |
|---|---|
| TOTAL | CYFANSWM |
| £434.53m | £434.53m |
| £M | £M |
| Serviced | Â gwasanaeth |
| Non-Serviced | Heb wasanaeth |
| SFR | Aros gyda ffrindiau neu berthnasau |
| Staying Visitor | Ymwelwyr sy'n aros dros nos |
| Day Visitor | Ymwelwyr dydd |
| Total | Cyfanswm |

Mae'r ddwy siart o'r adroddiad STEAM (a adwaenir bob amser wrth ei acronym, ac a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol fel safon diwydiant) yn dangos mai dim ond 13% o'r sawl sy'n ymweld â ni sy'n aros. Fodd bynnag, maent yn

creu 65% o’r budd economaidd ac mae’r rhan fwyaf o’r budd economaidd (46%) yn deillio o’r 6% yn unig o ymwelwyr sy’n dewis llety hunanarlwyo.

Mae’r Awdurdodau Lleol sy’n rhan o Bartneriaeth Cyrchfan Bannau Brycheiniog yn cefnogi cymunedau a busnesau. Mae llawer ohonynt yn cydnabod bod y potensial masnachol enfawr hwn yn adnodd i fodloni eu dyheadau ar gyfer adfywio a thwf.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cael y dasg o dyfu’r economi ymwelwyr er budd Cymru yn gyffredinol a chymunedau lleol yn benodol. Mae cynyddu arosiadau dros nos yn gwneud twristiaeth yn fwy proffidiol i gymunedau lleol – mae data STEAM yn dangos bod gwariant lleol bron yn treblu pan fydd pobl yn dewis aros dros nos. Felly, mae annog ymwelwyr i aros dros nos trwy gynnig amrywiaeth o lety dymunol iddynt yn rhan hanfodol o’r darlun. Yn unol â dyheadau ein cenadaethau ar gyfer y Parc Cenedlaethol, mae’r rhan fwyaf o’r llety sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei redeg gan fusnesau bach a chanolig, neu mae’n rhan o weithgarwch arallgyfeirio ffermydd, gyda pherchnogion yn aml yn byw yn y busnes.


Fodd bynnag, mae busnesau sy’n ymwneud â thwristiaeth, yn enwedig busnesau sy’n cynnig llety, wedi adrodd eu bod yn disgwyl y bydd cyfres o bolisïau yn cael effaith negyddol arnynt neu fod y polisïau hynny eisoes yn cael effaith negyddol arnynt mewn rhai achosion (disgrifir hyn isod yn adran 13).

Mae busnesau yn dweud wrthym eu bod am weld ymgyrchoedd marchnata cydgysylltiedig, effeithiol a chadarnhaol sy’n cynnwys yr atyniadau a’r mannau hardd sydd ar gael. Ailgreu ac (yn hanfodol) dod o hyd i gyllid ar gyfer y bartneriaeth marchnata cyrchfan yw un o flaenoriaethau allweddol ein partner, Twristiaeth Bannau Brycheiniog. Gweler adran 11 am ragor o fanylion.

## 2. Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol 2023-2028: cyflawni ein cenadaethau

Aeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol a’i randdeiliaid ati i lunio Dyfodol Y Bannau, Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol 2023-2028.

Roedd Dyfodol Y Bannau yn nodi gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Ffocws y cynllun yw sut y gall y Parc ymgysylltu’n effeithiol ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac adfer natur, a sicrhau bod pobl sy’n byw yn y Parc Cenedlaethol ac sy’n ymweld ag ef yn gallu ffynnu ar yr un pryd.




Mae'r Cynllun Rheoli yn dychmygu dyfodol lle:

"Byddwn yn cynnal y fflam ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Mae ymweld â Bannau Brycheiniog yn darparu profiad unigryw ac yn hyrwyddo cefnogaeth ar gyfer adferiad natur, llesiant cymunedol a'r economi leol. Bydd ymwelwyr yn gwybod ein stori ac yn cael eu cymell i'n helpu ni i ymateb i heriau allweddol, yn bennaf trwy eu gweithredoedd a'u hymddygiad eu hunain."

Mae'r Cynllun Rheoli yn disgrifio economi yn y dyfodol lle:

Bydd cymunedau a busnesau lleol yn elwa ar economi fywiog a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu cyfoeth lleol a'r economi sylfaenol. Bydd buddsoddiad newydd cynaliadwy yn gweithio ochr yn ochr â busnesau cartref i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da.

Yn ei weledigaeth strategol, "Croeso i Gymru – blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025", mae Croeso Cymru yn cynnig y dylid meithrin diwydiant llety *boutique*. Gallai gweithio gyda busnesau a phartneriaid i ddatblygu'r llety sy'n cael ei ddarparu yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd gyd-fynd â nodau Croeso Cymru a dyheadau'r Cynllun Rheoli.

Bwriad y nodau a'r amcanion yn y Strategaeth yw cyfrannu at y gwaith y mae'r Awdurdod a'i bartneriaid yn ei wneud i gyflawni'r cenadaethau y mae'r Cynllun Rheoli yn eu nodi ar gyfer y dyfodol.

## 3. Tywydd a newid yn yr hinsawdd – yr effaith ar nifer yr ymwelwyr

Mae adran 3 yn disgrifio pa mor bwysig yw'r tywydd wrth ddylanwadu ar nifer yr ymwelwyr ac yn ystyried yr angen i gynllunio ar gyfer twf mewn niferoedd a allai ddeillio o newid yn yr hinsawdd.

Mae'r tywydd eisoes yn un o'r newidynnau pwysicaf sy'n dylanwadu ar faint o bobl sy'n ymweld â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae miliynau o bobl o'r DU yn dewis mynd i dde Ewrop ar eu gwyliau. Yn ôl Tourism: Statistics and Policy in 2025[4], a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU:

[4] https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN06022/SN06022.pdf

"Of the 91.4 million trips made abroad by GB residents in 2024, 70.6 million (77%) were to Europe, 4.7 million (5%) to North America, and 16.1 million (18%) to the rest of the world.

Spain was the most visited country, accounting for 17.8 million visits in 2024. The next most visited countries were France (9.3 million) and then Italy (4.8 million), Turkey (4.1 million), the United States (4.1 million), Greece (3.8 million), and Portugal (3.7 million)."

Bydd cynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd y cyrchfannau gwyliau yn ne Ewrop naill ai'n anghyfforddus o boeth ac yn agored i danau, neu'n agored i lifogydd. Os yw'r rhagfynegiadau o hinsawdd gynhesach, sychach yn y DU dros yr haf yn gywir, gallai'r Parc Cenedlaethol ddenu nifer sylweddol o ymwelwyr newydd. Mae'r strategaeth hon yn cynnig y dylem gynllunio ar gyfer hyn.

## 3.1 Gallai newid yn yr hinsawdd ddenu mwy o ymwelwyr i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r BBC a'r Swyddfa Dywydd wedi gweithio i lunio rhagfynegiadau ar yr effaith y bydd newid yn yr hinsawdd yn ei chael.[5] Yn y dyfodol, mae'r tymheredd yn y Parc Cenedlaethol yn debygol o fod yn oerach yn yr haf nag yn nwyrain y DU ac, er y bydd hi'n gynhesach, bydd hi'n fwy tymherus o lawer yn y dyfodol nag yn y cyrchfannau gwyliau traddodiadol yn ne Ewrop.

Mae llai o law yn debygol yn yr haf hefyd yn sgil cynhesu byd-eang. Er bod llai o law yn cael effeithiau negyddol ar gynefinoedd ac afonydd y Parc Cenedlaethol, gallai hefyd wneud y Parc Cenedlaethol yn lleoliad mwy dymunol i'r rhai sydd ar eu gwyliau.

Nododd arolwg a gyhoeddwyd gan Visit Britain ym mis Ionawr 2026[6] mai'r tywydd yw'r ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniad pobl o Brydain i fynd ar wyliau dramor. Soniodd 47% oedd yn dewis mynd dramor mai'r tywydd oedd y prif reswm pam na fyddent yn dewis mynd ar wyliau yn y DU.


**TOP 5 reasons for UK preference**
1. UK holidays are easier to plan (51%)
2. UK holidays are cheaper (49%)
3. Shorter / quicker travel (49%)
4. To avoid long queues at airports/ports or cancelled flights/voyages (31%)
5. I want to take holidays in places I am familiar with (25%)

**TOP 5 reasons for Overseas preference**
1. Better weather (47%)
2. I want to visit new places/experience new cultures (42%)
3. Overseas holidays are cheaper (27%)
4. To visit friends or relatives (19%)
5. I'm prioritising overseas trips after missing out in the last few years (18%)

| 5 PRIF reswm dros ffafrio'r DU | 5 PRIF reswm dros ffafrio mynd dramor |
|---|---|
| 1. Mae'n haws cynllunio gwyliau yn y DU (51%) | 1. Tywyll gwell (47%) |

[5] https://www.bbc.co.uk/news/resources/idt-d6338d9f-8789-4bc2-b6d7-3691c0e7d138
[6] https://www.visitbritain.org/research-insights/domestic-sentiment-tracker

| | |
|---|---|
| 2. Mae gwyliau yn y DU yn rhatach (49%) | 2. Rwyf eisiau ymweld â lleoedd newydd/profi diwylliannau newydd (42%) |
| 3. Cyfnod teithio byrrach / cyflymach (49%) | 3. Mae gwyliau dramor yn rhatach (27%) |
| 4. I osgoi ciwiau hir mewn meysydd awyr/porthladdoedd neu hediadau/mordeithiau sy’n cael eu canslo (31%) | 4. I ymweld â ffrindiau neu berthnasau (19%) |
| 5. Rwyf eisiau mynd ar wyliau i leoedd rwy’n gyfarwydd â nhw (25%) | 5. Rwy’n blaenoriaethu teithiau dramor ar ôl colli allan yn ystod y blynyddoedd diwethaf (18%) |




| | |
|---|---|
| Figure 10. Top 10 Barriers to taking an overnight UK trip <u>in next 6 months</u>, Percentage, January 2026, UK | Ffigur 10. 10 Rhwystr mwyaf i fynd ar daith dros nos yn y DU <u>yn ystod y 6 mis nesaf</u>, Canran, Ionawr 2026, DU |
| UK weather | Tywydd yn y DU |
| Rising cost of living | Cynnydd mewn costau byw |
| Personal finances | Sefyllfa ariannol |
| Rising costs of holidays/leisure | Cynnydd mewn costau gwyliau/hamdden |
| My general health | Fy iechyd yn gyffredinol |
| The cost of fuel | Cost tanwydd |
| Limited available annual leave | Dim ond hyn a hyn o wyliau blynyddol sydd gennyf |
| I wouldn’t take a UK short break or holiday in the next 6 months regardless of the circumstances | Fydden i ddim yn mynd ar wyliau byr neu wyliau yn y DU yn y 6 mis nesaf ni waeth beth fo’r amgylchiadau |
| Difficulty getting money back if a trip is cancelled | Anodd cael ad-daliad os bydd taith yn cael ei chanslo |
| Prioritising overseas travel after missing out during the pandemic | Blaenoriaethu teithio dramor ar ôl colli allan yn ystod y pandemig |
| NET: Costs and finances | NET: Costau a chyllid |
| October 2025 Data | Data Hydref 2025 |
| November 2025 Data | Data Tachwedd 2025 |
| December 2025 Data | Data Rhagfyr 2025 |
| January 2026 Data | Data Ionawr 2026 |

Cyhoeddodd y BBC erthygl ar 18 Mehefin 2025 a oedd yn nodi'r duedd i fynd ar wyliau gartref oherwydd y tywydd eithafol yn ne Ewrop.[7] Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, aeth dros 30 miliwn o bobl i dde Ewrop (yn 2023 ymwelodd 17.8 miliwn o drigolion y DU â Sbaen, 9.2 miliwn â Ffrainc, 4.2 miliwn â'r Eidal a 4.5 miliwn â Gwlad Groeg)[8]. Yn y cyfamser, ymwelodd pobl â'r DU 15.9 miliwn o weithiau ar eu gwyliau. Fodd bynnag, dim ond 892,000 o'r ymweliadau hyn oedd yn ymweliadau â Chymru. Mae'n bosibl y gallai effaith newid yn yr hinsawdd annog rhai o'r miliynau hyn o bobl i droi eu sylw at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y dyfodol.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU (Tachwedd 2024) ei pholisi i gynyddu nifer yr ymwelwyr rhyngwladol i 50 miliwn erbyn 2030[9]. Os llwyddir i wneud hyn, bydd yn arwain at fwy o allyriadau carbon gan fod teithiau awyr yn arbennig o ddwys o ran carbon. Gallai'r difrod amgylcheddol a achosir wrth i fwy o dwristiaid rhyngwladol ymweld â'r DU gael ei wrthbwyso'n rhannol wrth i drigolion y DU ddewis treulio eu gwyliau ym Mhrydain. Byddai hyn yn arbennig o effeithiol pe baent yn defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy i deithio i gyrchfannau yn y DU ac o fewn y cyrchfannau hynny.

## 3.2 Astudiaeth achos sy'n archwilio effaith y tywydd ar nifer yr ymwelwyr

Yn ôl STEAM, croesawyd y niferoedd uchaf erioed o ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol yn 2018, sef 4.3 miliwn. Mae'n debygol mai'r tywydd oedd y newidyn pwysicaf a arweiniodd at yr uchafbwynt hwn. Mae erthygl a ysgrifennwyd gan y Swyddfa Dywydd yn esbonio'r tywydd y flwyddyn honno.[10]

Cafwyd eira ar ddechrau 2018 a daeth llawer o bobl i fwynhau mynyddoedd eirllyd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae Croeso Cymru yn adrodd bod y rhan fwyaf o ymweliadau â chyrchfannau yn y DU yn cael eu trefnu rhwng mis a thri mis cyn yr ymweliad.[11]

Tywydd poeth a heulog a welwyd ym mis Ebrill ac ar benwythnosau gwyliau banc mis Mai 2018. Gallwn dybio bod y cyfnod o dywydd cynnes iawn a gafwyd drwy gydol y cyfnod cyn misoedd allweddol yr haf wedi annog darpar ymwelwyr i drefnu gwyliau yn y DU – gan gynnwys yng Nghymru. Yn y cyfamser, roedd cyfandir Ewrop yn destun tymereddau uchel iawn a sychder, gyda'r tymheredd yn cyrraedd 45° am y

[7] Extreme heat is starting to change the way we holiday - BBC News
[8] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/leisureandtourism/articles/traveltrends/latest
[9] https://www.gov.uk/government/news/new-ambition-for-50-million-annual-visits-to-uk-announced-by-tourism-minister
[10] https://www.carbonbrief.org/guest-post-met-office-review-uk-weather-2018/
[11] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-06/baromedr-twristiaeth-cam-yr-mai-2023.pdf tudalen 11

tro cyntaf.[12] O ganlyniad i newid parhaus yn yr hinsawdd, mae'r tymereddau hyn, y rhai uchaf erioed, ar gyfandir Ewrop wedi parhau i gael eu torri.

Mae'r data hwn yn awgrymu bod cyfnodau o dywydd cynnes, heulog yn debygol o fod yn ffactor allweddol wrth i fwy o ymwelwyr ddewis Bannau Brycheiniog fel cyrchfan gwyliau. Gallai hyn arwain at fwy o ymwelwyr yn creu mwy o bwysau yn ystod y tymor prysur.

### 3.4 Ystyried un o effeithiau eraill newid yn yr hinsawdd – llifogydd

Fodd bynnag, mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn anrhagweladwy. Ymhlith yr effeithiau eraill y mae newid yn yr hinsawdd yn eu cael, effeithiau sydd wedi'u gweld eisoes yn y Parc Cenedlaethol, mae cawodydd o law trwm iawn, gwyntoedd cryfion a llifogydd. Roedd hafau 2023 a 2024 yn gymylog ac yn wlyb. Dywedodd atyniadau a darparwyr llety wrthym fod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng yn ystod haf 2024, a bod hyn wedi effeithio ar y niferoedd oedd yn trefnu gwyliau a'r arian a gymerwyd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen i atyniadau sicrhau eu bod yn gallu "gwrthsefyll y tywydd" er mwyn denu ymwelwyr, hyd yn oed mewn tywydd gwael. Rhoddwyd grant ar ddechrau 2025 ac unwaith eto yn 2026 i helpu atyniadau mawr ledled Cymru i greu digon o le dan do i sicrhau bod pobl yn gallu ymweld â nhw.[13] Bydd y lle hwn yn darparu cysgod pan fydd y tymheredd yn uchel a chysgod hefyd rhag y glaw.

Mae'n annhebygol y bydd sicrhau bod pethau i'w gwneud pan fydd hi'n bwrw glaw yn annog mwy o bobl i ddewis Cymru fel cyrchfan yn ystod tywydd gwael. Ar y llaw arall, mae'n debygol y bydd sicrhau bod atyniadau yn gallu "gwrthsefyll y tywydd" yn annog pobl sydd eisoes ar eu gwyliau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ymweld â nhw.

Fel y mae ymchwil Visit Britain a nodwyd uchod yn ei ddangos, bydd cynyddu budd economaidd twristiaeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn llawer anoddach os bydd newid yn yr hinsawdd yn dod â thywydd gwlyb, yn hytrach na heulwen, yn ystod misoedd yr haf.

## 4. Ein nodau a'n hamcanion

Mae adrannau 4 i 12 isod yn disgrifio'r amcanion ar gyfer y Strategaeth hon a'r blaenoriaethau rydym wedi'u nodi wrth eu cyflawni. Mae'r amcanion yn cyd-fynd yn fras â'r cenadaethau y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i'w cyflawni. Bydd yr amcanion o fudd i gymunedau'r Parc Cenedlaethol ac yn dod o dan y genhadaeth

[12] https://www.bbc.co.uk/news/in-pictures-45056991
[13] Weather-proofing grants offered to tourism businesses in Wales - BBC News

“pobl”. Maent hefyd yn cyfrannu at ein cenadaethau sy’n ymwneud â “dŵr”, “natur” a “lle”.

Mae gennym ddau nod craidd – a phum amcan; mae’r rhain yn bwysig ond maent yn dibynnu i raddau helaeth ar gyflawni’r nodau’n llwyddiannus:

- Nod 1 Rheoli ymwelwyr yn ein hatyniadau naturiol presennol.

- Nod 2 Rheoli ymwelwyr er budd ein cymunedau – llwybr i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth trefi marchnad.

Amcanion

- Amcan 1: Darparu presenoldeb ar-lein effeithiol ar gyfer y Parc Cenedlaethol fel cyrchfan i ymwelwyr.
- Amcan 2: Canllawiau ar gyfer digwyddiadau ym mhob rhan o’r parc
- Amcan 3: Adeiladu’r dull partneriaeth gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i reoli a hyrwyddo’r gyrchfan trwy gydol y flwyddyn
- Amcan 4: Creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth adfywiol
- Amcan 5: Rheoli gweithgareddau ymwelwyr ar lawr gwlad

# 5. Nod 1: rheoli ymwelwyr yn ein hatyniadau naturiol.

Mae adran 5 yn disgrifio’r rhesymeg dros bennu hyn fel nod craidd ac yn esbonio pam mae opsiynau eraill yn llai dymunol.

Mae’r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni nod craidd 1 wedi’u rhestru ar ôl adran 6.

Mae lleoedd yn y Parc Cenedlaethol sy’n profi gorlenwi ac sy’n wynebu pwysau mawr weithiau oherwydd nifer yr ymwelwyr. Mae hyn yn arbennig o wir ar wyliau banc, penwythnosau heulog, ac yn ystod y tymor prysur (gwyliau ysgol a’r wythnosau yn union cyn ac ar ôl y gwyliau hynny). Fodd bynnag, anaml y bydd llawer o leoliadau eraill yn y Parc Cenedlaethol yn profi gorlenwi, os o gwbl. I lawer mwy o’n trefi a’n pentrefi, byddai mwy o ymwelwyr yn helpu i gefnogi busnesau lleol ac yn dod â’u strydoedd mawr yn fyw.

Mae angen i ni wella’r profiad y mae ein cymunedau lleol yn ei gael ger y safleoedd sy’n destun gorlenwi ac annog ymwelwyr i fwynhau trefi a phentrefi sydd â busnesau a’r seilwaith i’w croesawu.

## 5.2 A fyddai gwella’r seilwaith yn creu mwy o alw?

Mae llawer o ddadlau wedi bod ynghylch pa mor briodol yw mynd ati i wella’r seilwaith mewn mannau o harddwch naturiol yng nghefn gwlad agored fel ffordd o reoli safleoedd sy’n profi gorlenwi. Er enghraifft, mae sawl un o’n safleoedd yn parhau i dyfu mewn poblogrwydd – yn sgil y ffaith eu bod yn cael eu crybwyll cymaint ar y cyfryngau cymdeithasol, fwy na thebyg.

O ran y safleoedd gwledig sydd fwyaf poblogaidd ymhlith ymwelwyr, caiff tagfeydd eu gweld yn rheolaidd ar ffyrdd un lôn yn ystod yr haf. Mae nifer y cerbydau yn achosi problemau ar y safleoedd eu hunain ac i'r tai a'r ffermydd sydd wedi'u lleoli ar hyd y ffyrdd mynediad. Mae pentrefi cyfagos yn gweld llawer mwy o draffig, a hyd yn oed tagfeydd wrth i bobl giwio i fynd i mewn neu allan o'r ardal. Yn aml, ychydig iawn o leoedd parcio sydd ar gael a does dim toiledau.

Mae'r diffyg seilwaith yn rhan o'r broblem erbyn hyn. Mae angen ymgysylltu ar frys i reoli'r niferoedd presennol o ymwelwyr er mwyn osgoi'r problemau a welir ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos y byddai'n ddoeth paratoi ar gyfer mwy o ymwelwyr yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio i wella mynediad ar gyfer ein holl ymwelwyr, gan gynnwys gweithio gyda'n partneriaid i osod seilwaith priodol.

### 5.3 Lledaenu'r llwyth?

Oes dewis arall?  Mae'r syniad o "ledaenu ymwelwyr o amgylch y Parc Cenedlaethol" yn cael ei grybwyll yn aml wrth ystyried sut i ddelio â'r mannau lle gwelir problemau ar hyn o bryd.

Mae'r ystadegau'n dangos bod ein hymwelwyr yn aml yn awyddus i ymweld â lleoliadau newydd, ond maent hefyd eisiau ymweld â'r prif atyniadau o leiaf unwaith, gan dargedu safleoedd sy'n boblogaidd ar y cyfryngau cymdeithasol. Fel arfer, mae ein hymwelwyr yn disgwyl dringo Pen y Fan ac ymweld â Bro'r Sgydau. Ar ôl iddynt weld y safleoedd eiconig hyn, maent wedyn yn debygol o ystyried opsiynau eraill.

Rhaid sicrhau bod y seilwaith i dderbyn ymwelwyr ar gael mewn cyrchfannau eraill cyn i ni annog ymwelwyr i fynd yno. Dylai safleoedd newydd a hyrwyddir gennym gynnwys ffyrdd sy'n addas i dderbyn mewnlifiad o ymwelwyr a seilwaith sy'n cynnwys meysydd parcio a thoiledau. Trwy gynllunio ar gyfer y niferoedd a allai gael eu denu i safle, mae potensial i ddatblygu cyfleoedd newydd i ymweld â safleoedd gwahanol. Heb y mewnwelediad hwn, mae risg y byddwn yn creu problemau newydd.

## 6: Annog ymwelwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol.

Mae adran 6 yn disgrifio'r dyheadau yn y Cynllun Rheoli i ymgysylltu â newid yn yr hinsawdd, ac yn manylu ar y data sy'n dangos bod ymwelwyr (a phreswylwyr) yn ffafrio cerbydau preifat. Mae'n disgrifio'r manteision a allai ddeillio o greu darpariaeth parcio a theithio/cynnig trafnidiaeth gynaliadwy gwell ac yn nodi astudiaeth achos sydd wedi arwain at ddefnydd gwell o drafnidiaeth gynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae hefyd yn sôn am yr effaith y mae dyheadau llywodraeth y DU i ddenu mwy o deithwyr rhyngwladol yn debygol o'i chael

Mae Dyfodol y Bannau (cynllun rheoli'r Parc Cenedlaethol) yn disgrifio sut:

“Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddod yn ‘esiampl’ wrth ymateb i’r argyfwng hinsawdd. Gofynnwyd i ni ymgysylltu â chymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol, a chydag ymwelwyr, i ddatblygu atebion ar gyfer lleihau allyriadau a darparu buddion i’r bobl a’r amgylchedd.”

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cyhoeddi ei uchelgais i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog erbyn 2035. Yn 2023, cyhoeddodd yr Awdurdod ei “Strategaeth a Chynllun Gweithredu Trafnidiaeth Gynaliadwy Sero Net” i gyflawni hyn. Byddai gweithio gyda phartneriaid i ystyried dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy eraill ar gyfer ymwelwyr a thrigolion, o leiaf yn ystod y tymor prysur, yn gam pwysig tuag at gyflawni’r nodau yn y Strategaeth honno.

## 6.1 Y sefyllfa sydd ohoni

Fel llawer o ardaloedd gwledig yn y DU, mae’r rhan fwyaf o bobl yn gyrru o fan i fan. Er enghraifft, dangosodd data cyfrifiad 2021 ar gyfer Powys fod 54% o drigolion yn gyrru i’r gwaith (roedd 3% arall yn deithwyr), 30% yn gweithio gartref, a 9% yn cerdded.[14] Roedd cyfran fach iawn yn defnyddio beic (1%) neu fws (1%). Mae’r rhan fwyaf o’r rhai sy’n ymweld â ni (87%) yn teithio yma am y dydd. Yn 2024, dangosodd ein harolwg ymwelwyr fod 82% o’n hymwelwyr wedi cyrraedd y gyrchfan mewn car neu ar feic modur, a’u bod wedi defnyddio’r dull teithio hwnnw wedyn yn y Parc.

Mae ceir yn teimlo fel opsiwn diogel a chyfforddus i lawer. Yn aml, mae adnoddau ychwanegol, er enghraifft ar gyfer plant a chŵn (teganau, bwyd ac ati), yn cael eu cludo yn y car, a gall deimlo fel estyniad o’u cartref.[15] Cyhoeddodd Transport for London adroddiad oedd yn rhestru’r amryw resymau pam mae pobl yn dewis ceir dros drafnidiaeth gyhoeddus.[16] Maent yn crynhoi’r rhain fel a ganlyn:

Manteision ymarferol ceir yw eu bod yn darparu gwasanaeth drws i ddrws 24/7 heb fod angen newid nac aros; gallant gario eich bagiau, eich siopa, neu’ch offer; ac mae’n hawdd talu amdanynt – nid yw’r costau go iawn bob amser yn amlwg i’r rhai sy’n mynd ar y daith. Mae’r ffactorau hyn i gyd yn cyfrannu at y ffaith bod y car yn gyfleus.

Mae manteision emosiynol ceir yn cynnwys ymdeimlad o ryddid, annibyniaeth, rheolaeth, hunan-werth/statws, a diogelwch personol. Un rheswm pam mae oedolion ifanc yn dysgu sut i yrru ac yn cael car yn y lle cyntaf yw ei fod yn cael ei ystyried fel rhan o dyfu i fyny ac felly’n ‘norm cymdeithasol’.

---

[14] https://cy.powys.gov.uk/article/13972/Cronfa-Wybodaeth-Llesiant-Gweld-gwybodaeth-ynglyn-Teithio-ir-gwaith-y-Cyfrifiad-fesul-Lleoliad
[15] https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2214367X22000333
[16] https://content.tfl.gov.uk/technical-note-13-what-are-the-motivations-for-owning-a-car.pdf

Os nad yw pobl mewn ardaloedd gwledig wedi arfer teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, gall bysiau a threnau gael eu gweld fel opsiwn i blant ysgol ac i'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at fanteision mwy dymunol car. Mae pobl o drefi mawr, y gallant fod yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o'u bywydau bob dydd, yn gyfarwydd â gwasanaethau yn rhedeg mewn munudau yn hytrach nag oriau. Gall arosiadau hir effeithio ar ba mor frwdfrydig ydynt i ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gall pobl eraill – er enghraifft yr henoed, rhai pobl ag anableddau, y rhai nad oes ganddynt gar – ddibynnu ar drafnidiaeth gymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Byddai gwella'r ddarpariaeth yn fuddiol i'r grwpiau hyn ac yn sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn fwy hygyrch i bawb.

Pwyntiau gwefru trydan: Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo i'r Ras i Sero ar gyfer allyriadau carbon erbyn 2030. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Awdurdod wedi gosod pwyntiau gwefru ceir yn y canolfannau ymwelwyr y mae'n berchen arnynt. Yn y cyfamser, o wanwyn 2025, mae Trafnidiaeth Cymru wedi gosod pwyntiau gwefru â thâl[17] yng Nghrucywel, Talgarth, Craig y Nos, a Phontsenni o fewn y Parc Cenedlaethol, ac yn Llanymddyfri, ychydig y tu allan iddo. Mae Awdurdodau Lleol wedi ychwanegu pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio mawr.

Dangosodd ein Harolwg Ymwelwyr fod 8% o ymwelwyr yn defnyddio ceir trydan. Roedd ceir trydan yn cyfrif am 3% o'r holl geir yn y DU ar ddiwedd 2023 ac 16% o'r ceir newydd a gofrestrwyd yn y flwyddyn honno. Mae defnydd cyhoeddus o geir trydan yn rhan o strategaethau Llywodraeth y DU[18] i leihau dibyniaeth ar danwydd ffosil. Bydd angen gosod y seilwaith trydanol angenrheidiol er mwyn cadw i fyny â'r galw am bwyntiau gwefru cerbydau trydan

Teithio ar y trên: Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael ei wasanaethu gan orsafoedd rheilffordd ar hyd ei gyrion gan gynnwys y rhai yn y Fenni, Merthyr Tudful a Llanymddyfri. Y Fenni yw'r orsaf sydd fwyaf tebygol o gael ei chyrraedd o Lundain, de Lloegr a Chanolbarth Lloegr, tra bod Merthyr yn opsiwn i bobl sy'n teithio o Gaerdydd a'r Cymoedd. Gall ymwelwyr o Abertawe a'r Gŵyr ddewis mynd ar linell Calon Cymru i Lanymddyfri hefyd.

Gallai ymestyn "Metro Caerdydd" arwain at gyfleoedd pellach i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy i gyrraedd y Parc, ond nid oes unrhyw gynlluniau ar gael i'w hystyried ar hyn o bryd. Efallai y bydd y gwelliannau i amlder trenau ar hyd ffin ddeheuol y Parc Cenedlaethol yn 2026 yn arwain at well cysylltedd.

Bysiau: Mae'n bosibl teithio ar hyd y ffyrdd A yn y Parc Cenedlaethol ar fws, yn enwedig yn ystod oriau gwaith. Mae bysiau'n rhedeg o'r de i'r gogledd (ac yn ôl) trwy Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o Gaerdydd ac ymlaen i Henffordd, ac o'r

---

[17] https://trc.cymru/ffyrdd-o-deithio/gyrru/pwyntiau-gwefru-ct
[18] https://www.gov.uk/government/speeches/phasing-out-the-sale-of-new-petrol-and-diesel-cars-from-2030-and-support-for-zero-emission-vehicle-zev-transition

dwyrain i'r gorllewin (ac yn ôl) gyda bysiau o'r Fenni i Aberhonddu, ac o Aberhonddu i Landymddyfri. Mae yna wasanaeth o Abertawe i Aberhonddu hefyd. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol (sy'n tendro'r contract) a'r cwmni sy'n rhedeg y contract yw'r bysiau.

Beicio: Mae yna lawer o gyfleoedd hyfryd i fynd am dro hamddenol ar gefn beic yn y Parc Cenedlaethol, gyda llwybrau ar hyd hen dramffyrdd, rheilffyrdd, a ger y gamlas. Mae llwybrau beicio mynydd sy'n cael eu hyrwyddo yn boblogaidd yng nghefn gwlad. Mae mwyfwy o ymwelwyr a phobl leol yn defnyddio E-feiciau i gael mynediad i gefn gwlad. Byddwn yn asesu'r gwaddol y gallwn ei greu wrth hyrwyddo beicio yn yr ardal, a'r diddordeb sy'n debygol o gael ei weld yn sgil y ffaith y bydd y Tour De France yn cyrraedd y Parc ym mis Gorffennaf 2027.

Ychydig iawn o lonydd beicio sy'n bodoli i deithio o amgylch y Parc Cenedlaethol ar feic. Mae ffyrdd gwledig yn tueddu i fod yn gul ac yn droellog. Gyda therfyn cyflymder o 60mya rhwng pentrefi, mae llawer o yrwyr yn dewis teithio ar gyflymder. Mae beicio oddi ar y prif ffyrdd yn tueddu i gynnwys dringfeydd serth iawn ac arwynebau ffyrdd gwael.

Tacsis: nifer cyfyngedig o dacsis sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol, ac maent fel arfer i'w gweld yn y trefi a'r pentrefi mwy o faint.

## 6.2 Y broblem

Mae trafnidiaeth bersonol (ceir, faniau, cartrefi modur ac ati) yn gyfleus iawn ond mae'n achosi rhai o'r problemau mwyaf difrifol sy'n wynebu cymunedau yn y Parc Cenedlaethol. Ar wahân i'r llygredd a'r effaith negyddol ar newid yn yr hinsawdd, mae mwy o draffig a pharcio amhriodol yn achosi gwrthdaro. Pan fydd nifer mawr o gerbydau yn cyrraedd, gallant ddifetha'r profiad o ymweld â lleoliadau anghysbell, gwledig. Mae angen mynd ati i ddatrys y problemau hyn mewn ffordd gydweithredol, gan gynnwys ymrwymiad sylweddol o ran adnoddau a datrysiadau a negodir gyda chymunedau lleol, yr heddlu, priffyrdd ac Awdurdodau Lleol.

Mae gwasanaethau bysiau yn bodoli ar lwybrau allweddol, ond mae'n bosibl na fydd amseroedd y bysiau a'u hamlder yn diwallu anghenion defnyddwyr sydd eisiau ymweld â'r Parc Cenedlaethol.

## 6.3 Parcio a Theithio – cynllun realistig ar gyfer y dyfodol?

Yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer yr adroddiad hwn, roedd cynghorau cymuned lleol yn aml yn cynnig y dylid cyflwyno cynlluniau parcio a theithio. Roeddent yn gweld y rhain fel ateb delfrydol i'r problemau roeddent yn eu profi gyda cherbydau. Mae parcio a theithio yn cynnig cyfleoedd masnachol posibl i'r cymunedau sydd agosaf at y maes parcio. Esboniodd perchennog gwesty mawr lleol fod cynllun parcio a theithio a ddefnyddiodd ei westy fel man casglu yn ystod Gŵyl y Gelli wedi denu gwesteion i aros yno. Mae'n amlwg pam y gallai fod o fantais i gymunedau y

mae ciwiau traffig a phroblemau parcio yn peri problemau iddynt ar hyn o bryd o ran rheoli mynediad a pharcio yn wahanol.

I gyflawni cynllun parcio a theithio llwyddiannus, byddai angen:

- Nodi safleoedd â digon o leoedd parcio sy'n ddigon agos at yr atyniad.
- Buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith, gan gynnwys nodi safleoedd ar gyfer parcio ceir a thoiledau (a/neu eu hadeiladu o bosibl).
- Ariannu'r costau cysylltiedig.
- Darparu gwasanaeth bws gwennol hygyrch (trydan yn ddelfrydol) (sy'n rhedeg yn ddigon rheolaidd i fod yn dderbyniol i ymwelwyr).
- Ymgysylltiad egnïol gan yr heddlu, yr awdurdodau priffyrdd lleol, a staff i atal parcio heb awdurdod y tu allan i'r lleoliad parcio a theithio.

Mae'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal gwasanaeth parcio a theithio yn heriol. Bydd pobl yn talu tâl parcio ar gyfer y cyfleuster o ddod â'u car i safle. Fel arfer, mae'r rhan "teithio" o ddarpariaeth parcio a theithio – yn enwedig bysiau gwennol – yn cael ei chynnig i'r defnyddwyr "am ddim". Caiff ei thalu'n rhannol trwy fynediad i'r safle neu o'r maes parcio ac yna ei sybsideiddio. Ar hyn o bryd, caiff y ffioedd i barcio ceir ar safleoedd yr Awdurdod eu defnyddio i gefnogi gwaith cynnal a chadw a staffio hanfodol. Mae'n ymddangos yn debygol y gallai cynllun parcio a theithio wneud cyfraniad cadarnhaol i reoli ymwelwyr a chefnogi teithio cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai angen iddo gael ei sybsideiddio neu ei noddi, yn enwedig o ran buddsoddiad cyfalaf cynnar mewn seilwaith.

Mae'r broses o greu seilwaith newydd yn ddarostyngedig i reoliadau ac ymgynghori ac mae'n debygol o gymryd blynyddoedd i'w chwblhau. Serch hynny, mae hwn yn opsiwn pwysig i Fannau Brycheiniog ymgysylltu ag ef. Mae tystiolaeth o safleoedd eraill – gan gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri (gweler yr astudiaeth achos isod) – bod cymryd camau i ddatrys problemau parcio yn hanfodol i'r cymunedau y mae problemau traffig yn effeithio arnynt.

### 6.4 Astudiaeth Achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ymateb i broblemau parcio

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn gweithio ar barcio a thrafnidiaeth yn ardal yr Wyddfa ers 2019. Mae'r Wyddfa yn denu miloedd o dwristiaid a phobl leol bob blwyddyn, sy'n cyflwyno heriau.

Lansiodd APC Eryri gynllun yn 2018 i ddod â phawb a oedd yn ymwneud â rheoli'r Wyddfa at ei gilydd a threfnodd ymgynghoriad eang i ystyried sut i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Nodwyd trafnidiaeth a pharcio fel blaenoriaethau allweddol.

Yn 2020, comisiynodd APC Eryri adolygiad arall i edrych ar faterion yn ymwneud â'r Wyddfa ac Ogwen. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y cyhoedd yn disgwyl gyrru yno, a bod hyn yn tanseilio gwasanaethau bysiau. Argymhellodd yr adolygiad fod

angen newid sylweddol. Roeddent yn teimlo na fyddai mân newidiadau i drefniadau parcio, tariffau a gwasanaethau bysiau yn arwain at y newid a oedd ei angen. Y ffordd orau o fynd i'r afael â'r broblem fyddai newid normau a disgwyliadau cymdeithasol.

Gyda chymorth Trafnidiaeth Cymru, aeth Eryri ati i dreialu rhai o'r argymhellion o'r adroddiad. Cafodd synwyryddion eu gosod mewn rhai meysydd parcio i rannu gwybodaeth fyw am ba mor brysur oeddent. Aeth Trafnidiaeth Cymru ati i dreialu llwybr Bws T10 drwy Ddyffryn Ogwen. Sefydlwyd system archebu ymlaen llaw ar gyfer y maes parcio ym Mhen y Pass. Yn 2019, defnyddiodd bron i 250,000 o gerddwyr y llwybr i fyny'r Wyddfa o Ben y Pass.

Yn 2020/21, ar ôl i gyfyngiadau Covid gael eu codi, cyrhaeddodd nifer fawr o ymwelwyr mewn ceir, gan waethygu'r problemau parcio.  Roedd y ffaith bod ymwelwyr wedi parcio yno yn golygu nad oedd modd defnyddio'r ffyrdd yn ddiogel ac nad oedd mynediad ar gael i wasanaethau brys. Rhoddodd ymddygiad ymosodol a rhwystredigaeth gan drigolion ac ymwelwyr bwysau ar y staff ar lawr gwlad a oedd yn gyfrifol am reoli'r ardal. Roedd cymunedau lleol yn teimlo pwysau oherwydd sbwriel ac roeddent yn ofni y byddent yn dal Covid. Roedd angen gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â'r sefyllfa anghynaliadwy. Gweithiodd yr Awdurdod yn agos gyda'r heddlu a Chyngor Gwynedd. Roeddent eisiau i ymwelwyr barcio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i'r safle. Er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl, roedd angen newid y trefniadau teithio a pharcio yn yr ardal.

Gweithredwyd system archebu ymlaen llaw ar-lein ar gyfer y maes parcio uchaf i fyny'r mynydd – Pen y Pass. Pennwyd prisiau parcio cymharol uchel ar gyfer y maes parcio hwn. Gwahoddwyd pobl i barcio ar safleoedd a oedd ymhellach i lawr y dyffryn a thalu am docynnau ar wasanaeth bws Sherpa (a oedd yn rhatach na pharcio ym Mhen y Pass).

Ychwanegwyd mwy o fysiau i ddarparu gwasanaeth bob 15 munud. Gosodwyd arwyddion electronig ar yr A55 wrth i bobl yrru i mewn i'r ardal i'w hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a'r gwasanaeth parcio a theithio.

Yn 2021, ffurfiolwyd y system archebu ymlaen llaw gan ddefnyddio JustPark, gan alluogi gwasanaeth dwyieithog. Cafodd y gwasanaeth bws Sherpa ei ailfrandio, gan annog pobl i'w ddefnyddio. Arweiniodd y gwelliannau hyn at newidiadau i ddisgwyliadau ymwelwyr ynghylch defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd yr Wyddfa.

Mae ffigurau diweddar gan Gyngor Gwynedd yn dangos bod cynnydd o 75% wedi bod yn nifer y teithwyr ar fysiau yn ystod y cyfnod prysuraf. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn yr achosion o barcio anghyfreithlon ym Mhen y Pass, a chynnydd yn y defnydd o feysydd parcio eraill ymhellach i lawr y dyffryn.

Mae'r system parcio ymlaen llaw wedi bod yn llwyddiant ar y cyfan. Mae'r system yn cael ei chroesawu gan staff, sy'n nodi bod agwedd y cyhoedd wedi gwella. Mae'r system awtomatig yn rhyddhau amser staff ac mae'r adborth gan ddefnyddwyr yn gadarnhaol. Ar y llaw arall, roedd darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i gydymffurfio â pholisi iaith yr Awdurdod yn heriol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn prydlesu safle'r maes parcio sy'n golygu nad yw'n gallu gosod rhwystrau a'i fod wedi gorfod cyflogi swyddogion diogelwch. Mae dadleoli parcio i drefi lleol wedi achosi rhai problemau parcio, sydd wrthi'n cael eu monitro.

Mae llwyddiant cyffredinol y fenter ym Mharc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn seiliedig ar bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol, yr heddlu, cymunedau lleol, a rhanddeiliaid eraill. Mae gwaith partneriaeth wedi bod yn hanfodol, a bydd yn parhau felly.

## 6.5 Teithiau ymwelwyr tramor

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei dyhead i dyfu'r farchnad ymwelwyr tramor proffidiol o 38 miliwn i darged o 50 miliwn o bobl.[19] Mae ymchwil gan Visit Britain yn dangos bod y rhan fwyaf o ymwelwyr tramor yn ymweld â Llundain yn unig. Yr amser teithio cyfartalog y byddant yn ei ystyried yn y DU yw dwy i dair awr i'w cyrchfan. Dywed Croeso Cymru:

"Mae angen i ni wneud mwy er mwyn targedu ymwelwyr rhyngwladol sy'n ystyried Prydain, gan ddefnyddio partneriaethau digidol er mwyn sicrhau bod Cymru yn ennill y blaen ar y rhai sydd eisoes yn chwilio am wyliau yn y DU. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda VisitBritain er mwyn hyrwyddo safle Cymru ar y llwyfan rhyngwladol."

"Yn hytrach nag annog pobl i beidio â gwneud teithiau rhyngwladol – sy'n gwneud cyfraniad hirdymor pwysig i swyddi a gwariant yng Nghymru – byddwn yn gweithio gyda Maes Awyr Caerdydd ac eraill er mwyn ymchwilio i ddulliau newydd o ddefnyddio'r broses gwrthbwyso carbon sydd o fudd i Gymru."[20]

Gan fod ymwelwyr o dramor yn aros yn hirach mewn llety lleol fel arfer, gallant fod yn farchnad bwysig ar gyfer unrhyw gyrchfan. Mae Croeso Cymru a Visit England ill dau yn marchnata i gynulleidfaoedd allweddol. Maent yn gwahodd cyrchfannau yng Nghymru i rannu manylion cynnyrch a chynigion. Pan fydd y prosiect, a grybwyllwyd yn adran 11, a fydd yn nodi cyfleoedd i ymgysylltu â thwristiaeth adfywiol wedi'i ddatblygu, gallwn farchnata'r rhain dramor yn ogystal ag i gynulleidfaoedd yn y DU.

---

[19] https://www.gov.uk/government/news/new-ambition-for-50-million-annual-visits-to-uk-announced-by-tourism-minister

[20] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/croeso-i-gymru-blaenoriaethau-ir-economi-ymwelwyr-2020-2025.pdf

Priorities for Goal 1

| | |
|---|---|
| Infrastructure | Visitors need toilets, and car parks, ideally popular sites would be served by sustainable transport. The Strategy suggests that ahead of any promotion, it is vital that infrastructure (car parks, toilets, hospitality offers, EV charging) is considered and if necessary, funding sought for it. We and our partners will collectively agree to promote beauty spots with parking, toilets, appropriate road access etc. – however we will engage in the online narrative relating to other sites to inform visitors about the limitations. |
| Access | We will continue to work to improve access for our visitors, including working with our partners to install appropriate infrastructure. |
| Sustainable Transport | We will work with partners on the provision of sustainable transport alternatives for visitors and residents where possible, at least during high season. |

| Priorities for Goal 1 | Blaenoriaethau ar gyfer Nod 1 |
|---|---|
| Seilwaith | Mae angen toiledau a meysydd parcio ar ymwelwyr ac, yn ddelfrydol, byddai safleoedd poblogaidd yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r Strategaeth yn awgrymu, cyn bod unrhyw weithgarwch hyrwyddo yn mynd rhagddo, ei bod yn hanfodol bod seilwaith (meysydd parcio, toiledau, lletygarwch, mannau gwefru cerbydau trydan) yn cael ei ystyried a bod ceisiadau am gyllid yn cael eu gwneud ar ei gyfer, os oes angen. Byddwn ni a'n partneriaid yn cytuno ar y cyd i hyrwyddo mannau hardd gyda lleoedd parcio, toiledau, mynediad priodol i'r ffordd ac ati – fodd bynnag, byddwn yn ymgysylltu â'r naratif ar-lein sy'n ymwneud â safleoedd eraill i hysbysu ymwelwyr am y cyfyngiadau. |
| Mynediad | Byddwn yn parhau i weithio i wella mynediad i'n hymwelwyr, gan gynnwys |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda'n partneriaid i osod seilwaith priodol. |
| Trafnidiaeth Gynaliadwy | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy amgen i ymwelwyr a thrigolion lle y bo'n bosibl, o leiaf yn ystod y tymor prysur. |

# 7. Seilwaith ymwelwyr ac ansawdd dŵr

Mae diogelu dŵr yn y Parc Cenedlaethol yn un o'n cenadaethau fel Awdurdod – mae'r adran hon yn disgrifio'r angen i ddarparu seilwaith priodol i ymwelwyr, gan gynnwys yr angen i weithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i gyllid ar gyfer darparu digon o doiledau cyhoeddus. Mae'n awgrymu bod angen ymgyrch gyhoeddus ar ymddygiad priodol wrth ddefnyddio toiled yn yr awyr agored – yn dilyn esiampl astudiaeth achos yn yr Alban. Mae'r adran hefyd yn sôn am gais Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleoedd i nofio mewn dŵr mewndirol.

Yn ogystal â denu ymwelwyr o bob cwr o'r DU, mae Bannau Brycheiniog hefyd yn darparu dŵr yfed glân i gymunedau o'i gronfeydd dŵr. Rydym yn bwriadu helpu ymwelwyr i gadw'r dŵr yn lân ac yn glir yn y Parc Cenedlaethol.

## 7.1 Seilwaith ymwelwyr – toiledau

Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n ymweld â ni (87%) yn teithio yma am y dydd. Mae hyn yn golygu y bydd angen cyfleusterau parcio a thoiledau arnynt fel arfer pan fyddant yn cyrraedd y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn arbennig o wir am ymwelwyr a allai fod â chyflyrau iechyd, yr henoed neu ymwelwyr ifanc iawn. Yn anffodus, nid yw peidio â darparu toiled yn lleihau'r angen i'w ddefnyddio.

Mae'r diffyg toiledau cyhoeddus wedi dod yn broblem gynyddol ym mhob rhan o'r Parc Cenedlaethol. Nid yw'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu toiledau cyhoeddus, ac mae toriadau mewn gwariant cyhoeddus wedi effeithio ar y ddarpariaeth hon. Yn anffodus, mewn ardal y mae bron i bedair miliwn o bobl yn ymweld â hi bob blwyddyn, mae'r achosion hyn o gau cyfleusterau yn arbennig o broblematig. Mae toiledau'n ddrud i'w rhedeg ac, i ddarparu cyd-destun, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn derbyn £5.2m o gymharu â chyllideb Cyngor Sir Powys o bron i £370m.

Yng nghefn gwlad agored, mae tîm wardeiniaid y Parc Cenedlaethol yn adrodd bod ysgarthion dynol a hancesi papur neu liain yn cael eu gweld yn aml ar lwybrau ac wrth ymyl mannau hardd. Mae cymunedau yn cwyno am ddod o hyd iddynt mewn

cilfannau, a hyd yn oed ar ddreifiau trigolion. Ar wahân i'r ffaith bod eu clirio yn dasg annymunol, mae'r broblem yn berygl i iechyd ac yn fygythiad i'r amgylchedd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, rhaid i dirfeddianwyr y Parc Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol a'i drefi a'i bentrefi sicrhau bod darparu toiledau wrth safleoedd allweddol yn un o'u nodau. Bydd gwella'r cyfleusterau toiledau a ddarperir yn fuddiol i ymwelwyr ac yn mynd i'r afael â phryderon cymunedau lleol. Mae angen nodi model ar gyfer ariannu'r ddarpariaeth hon – does gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddim arian ar eu cyfer.

### 7.1.1 Astudiaeth Achos: Parc Cenedlaethol Loch Lomond a'r Trossachs

Yn 2019, creodd Parc Cenedlaethol Loch Lomond a'r Trossachs gyfres o ymyriadau yn ymwneud â defnyddio toiledau yng nghefn gwlad agored o'r enw "What to do when you need to poo – Here. Now. All of us". Roedd eu menter yn cynnwys gwybodaeth ar-lein, ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus, a negeseuon atgoffa am y cyfle olaf i ddefnyddio toiled. Rhoddwyd y negeseuon ar-lein (ac maent yn dal i fod yno) ac yn y toiledau eu hunain i atgyfnerthu'r ffaith mai dyma fyddai'r cyfle olaf i ddefnyddio toiled "go iawn". Cynigiwyd benthyg trywel yn rhai o'r ardaloedd a darwyd waethaf. Mewn mannau lle nad oedd modd defnyddio tryweli, fel glannau llynnoedd, treialwyd 'biniau pŵ' a 'phecynnau pŵ' dynol (bagiau gwyleidd-dra a bagiau leinin).

Cafodd yr holl ymyriadau eu croesawu ac fe'u defnyddiwyd yn briodol. Er enghraifft, ni chafodd y biniau pŵ eu defnyddio ar gyfer sbwriel arall.

Enillodd ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus Cairngorms wobr am yr ymagwedd agored a digrif at addysgu pobl sut i fynd yn gyfrifol. Roedd negeseuon yn gofyn i ymwelwyr beidio â gadael papur toiled pan oeddent yn cael pi-pi, ac i gario bagiau bach fel bod modd iddynt fynd â phapur toiled wedi'i ddefnyddio gyda nhw. Yn bwysicaf oll, gwnaeth yr ymgyrch lawer i sicrhau bod y cyhoedd yn siarad am y pwnc. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac yn cael ei atgyfnerthu drwy negeseuon tymhorol.

Parhaodd y cynnig i fenthyg tryweli, a oedd yn gymharol rhad ac yn hawdd ei gynnal, am flwyddyn neu ddwy ar ôl i'r prosiect ddod i ben, a chafodd effaith gadarnhaol ar y safleoedd yn lleol.

Cynigiodd prosiect Cairngorm Snow White fersiwn wahanol o ymgyrch 'paciwch e' i ffwrdd' wedi'i hwyluso.[21] Rhoddwyd bagiau a 'photiau pŵ' â chaead arnynt i ymwelwyr. Ar ôl eu defnyddio, gallai ymwelwyr ollwng y bagiau yn y biniau pŵ yn y maes parcio cyn dychwelyd y pot. Byddai cyflwyno cynllun o'r fath yn golygu ymrwymiad i ddarparu potiau a thalu costau casglu'r pŵ.

---

[21] https://www.peakmountaineering.com/cairngorm-snow-white-project/

Er mwyn mynd i'r afael â phroblem mynd i'r toiled yng nghefn gwlad agored a'i effeithiau niweidiol iawn, mae angen llawer mwy o doiledau (gan gynnwys ar hyd llwybrau), gyda chefnogaeth cynllun fel yr un a ddisgrifir uchod.

Un cynnig ar gyfer y Strategaeth hon yw gweithio gyda'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru i sefydlu ymgyrch genedlaethol, gyhoeddus ynghylch mynd i'r toiled yn yr awyr agored. Mae'r astudiaeth achos isod o'r Alban yn darparu enghraifft ddefnyddiol o'r hyn y gall ymgyrch o'r fath ei gyflawni.[22]

### 7.1.2 Toiledau mewn trefi a phentrefi

Mae cyllid grant Y Pethau Pwysig wedi cael ei ddefnyddio i helpu grwpiau cymunedol lleol i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus ledled Cymru. Mae'n ofynnol wedyn i'r grwpiau hyn gynnal a chadw'r toiledau. Rydym yn cynnig y dylid cynnal astudiaeth, mewn partneriaeth â'n partneriaid Awdurdod Lleol a chymunedol, ac y dylid cysylltu â sefydliadau sy'n rhoi grantiau i ddarparu toiledau parhaol a dros dro. Mae angen sicrhau bod cyllid ar gael i osod, glanhau a chynnal a chadw toiledau yn barhaus. Cynigir cynnal arolwg o'r ddarpariaeth yn y trefi marchnad a nodwyd ar gyfer y rhwydwaith yn adran 8 isod.

## 7.2 Rheoli dŵr gwastraff yn ystod digwyddiadau

Mae angen i ddigwyddiadau ystyried effaith dŵr gwastraff ac elifiant ar gyrsiau dŵr a'u dalgylchoedd. Ar gyfer digwyddiadau sy'n defnyddio hawliau datblygu a ganiateir mewn dalgylchoedd afonydd a ddynodwyd fel Ardal Cadwraeth Arbennig, mae cyngor ar gael yma.

## 7.3 Mwynhau dŵr

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gefnogi'r gwaith o ddynodi dyfroedd ymdrochi mewndirol.

Mae gweithgareddau sy'n seiliedig ar ddŵr gan gynnwys pysgota, caiacio a chanŵio eisoes yn boblogaidd iawn ledled y DU. Mae diddordeb cynyddol mewn padlfyrddio a nofio gwyllt yn golygu y bydd angen dull prosiect ac ymgysylltiad partneriaeth i nodi a hyrwyddo lleoedd priodol a diogel i fynd i mewn i'r dŵr.

Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog yw un o'r asedau twristiaeth a chymunedol mwyaf poblogaidd yn y Parc Cenedlaethol ac mae'n darparu lleoliad allweddol ar gyfer mwynhau gweithgareddau dŵr. Mae hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored yn aml yn addysgu sgiliau caiacio, canŵio a phadlfyrddio i grwpiau bach ar y gamlas. Mae cerdded a beicio ar hyd llwybr halio'r gamlas hefyd yn weithgareddau sy'n apelio'n fawr i'n hymwelwyr, gan fod y llwybr yn wastad ac oddi ar y ffordd. Hefyd, mae llogi cychod camlas yn cefnogi nid yn unig y busnesau llogi eu hunain ond hefyd

[22] https://www.bbc.co.uk/programmes/articles/ChbSFJCXkRXWx4LZGw8pWl/what-are-the-dos-and-donts-of-going-to-the-toilet-outdoors

yr amryw o dafarndai a chaffis ar hyd llwybr y gamlas, sy'n 35 milltir o hyd. Mae'r gamlas yn cael ei bwydo'n uniongyrchol o Afon Wysg ac mae llai o ddŵr yn cael ei dynnu nawr i ddiogelu iechyd yr afon[23], gan arwain at fygythiad i fodolaeth hirdymor y gamlas. Mae'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddod o hyd i ateb hirdymor cynaliadwy i'r mater a fydd yn hanfodol i gefnogi'r economi dwristiaeth leol.

## Amcan 1 – Darparu presenoldeb ar-lein effeithiol ar gyfer y Parc Cenedlaethol fel cyrchfan i ymwelwyr

Mae adran 7.4 isod yn disgrifio'r angen i ddarparu presenoldeb ar-lein priodol ac effeithiol er mwyn helpu ymwelwyr i fwynhau'r parc cenedlaethol mewn ffordd ddiogel a chyfrifol, a'r heriau sydd ynghlwm wrth wneud hynny. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r amcan hwn wedi'u rhestru cyn adran 8.

### 7.4.1 Rheoli'r galw

Yn aml, nid yw'n bosibl defnyddio'r gyfraith na statud i gyfyngu ar nifer yr ymwelwyr â'r safleoedd sy'n profi gorlenwi yn y Parc Cenedlaethol. Mae safleoedd yn hygyrch o ffyrdd cyhoeddus a gellir eu cyrraedd ar lwybrau troed cyhoeddus, neu mae gan y cyhoedd yr hawl i gael mynediad atynt o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.[24]

### 7.4.2 Parciau Cenedlaethol fel brand

Ni ddylem danamcangyfrif effaith brand byd-eang Parciau Cenedlaethol. Mae bodolaeth Parc Cenedlaethol unrhyw le yn y byd yn awgrymu ei fod yn rhywle sy'n cael ei warchod oherwydd ei fod yn arbennig, a'i fod yn lle y mae'n bosibl ymweld ag ef.[25] O ganlyniad, mae'r cyhoedd yn disgwyl y bydd nodweddion naturiol pwysig i'w gweld o fewn Parc Cenedlaethol. Nid yw ein Parc Cenedlaethol ni yn eithriad. Mae ein canolfannau ymwelwyr yn croesawu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn sydd eisiau cyfarwyddiadau i'r safleoedd allweddol yn y Parc Cenedlaethol. Mae adroddiadau byd-eang yn dangos bod ymwelwyr yn dewis atyniadau cydnabyddedig i ymweld â nhw, gydag 80% o dwristiaid yn ymweld â dim ond 10% o'r safleoedd y mae'n bosibl ymweld â nhw ledled y byd.[26]

### 7.4.3 Effaith y cyfryngau cymdeithasol wrth greu galw

Dros y degawd diwethaf, gwnaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol a phartneriaid eraill benderfyniad strategol i beidio â marchnata rhai safleoedd. Bwriad hyn oedd

[23] https://canalrivertrust.org.uk/wales/monmouthshire-and-brecon-canal-water-abstraction
[24] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/contents
[25] https://www.nationalgeographic.com/travel/national-parks
[26] https://www.mckinsey.com/industries/travel/our-insights/destination-readiness-preparing-for-the-tourist-flows-of-tomorrow


cydnabod y pryderon oedd gan gymunedau lleol ynghylch pwysau ymwelwyr. Y disgwyliad felly oedd y byddai peidio â marchnata'r safleoedd yn golygu llai o ymwelwyr yn ystod y tymor prysur, i lefydd lle na allai'r seilwaith eu cefnogi.

Yn anffodus, yn sgil y ffrwydrad mewn cyfryngau cymdeithasol, cafodd y gwactod a adawyd yn sgil y penderfyniad hwn ei lenwi'n fuan gan y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi cael mwyfwy o effaith ar ymddygiad ymwelwyr. Erbyn hyn, mae ymwelwyr yn defnyddio ffotograffau ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol neu flogiau gan ddylanwadwyr cymdeithasol yn gyson i benderfynu ble i fynd. Mae dod o hyd i "berl cudd" a'i rannu i ddenu dilynwyr yn arbennig o boblogaidd, ond yn aml mae'n denu pobl i ymweld â mannau lle nad oes lleoedd parcio na thoiledau. Yn sgil hyn, mae'r cyhoedd wedi cael ei gyfeirio at leoedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lle nad oes seilwaith i ddarparu ar gyfer niferoedd mawr. Er enghraifft, ymwelodd 200,000 o bobl â'r Sgydau yn 2024, er nad oedd y Parc Cenedlaethol na'r Awdurdodau Lleol perthnasol wedi rhoi unrhyw gyhoeddusrwydd i'r ardal.

Mae'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol wedi creu rhai sefyllfaoedd heriol o ran diogelwch a disgwyliadau ymwelwyr. Er enghraifft, mae ymatebion i Tripadvisor yn dangos cyn lleied o wybodaeth oedd gan rai ymwelwyr cyn iddynt gyrraedd:

- Mae'r mwyafrif o "adolygiadau" Trip Advisor yn gadarnhaol, ond mae lleiafrif yn aml yn cynnwys cwynion am ymweld â Bro'r Sgydau. Nid yw'r rhan fwyaf yn cwyno am y torfeydd. Yn hytrach, mae ymwelwyr yn mynegi syndod ac weithiau arswyd bod y daith gerdded yn cymryd sawl awr, i fyny ac i lawr ceunentydd serth, gan ddefnyddio grisiau.
- Datgelodd adolygiad (pôl gwelltyn) diweddar o bostiadau gan ddylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol ar Instagram fod 59% o'r postiadau am Fro'r Sgydau yn hyrwyddo gweithgarwch nad oedd y tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir yn dymuno ei annog. Weithiau, roedd y gweithgaredd dan sylw, neu'r llwybrau a gynigiwyd, yn fannau lle roedd pobl wedi dioddef anafiadau a oedd wedi newid eu bywydau, a hyd yn oed wedi marw.
- Mae llawer o bobl wedi mynd ar goll neu wedi torri eu ffêr yn ymweld â Phen y Fan. Nid oedd llawer yn gwisgo esgidiau neu ddillad priodol, a doedd ganddyn nhw ddim y sgiliau darllen mapiau i ddod o hyd i'w ffordd yn ôl pan oeddent yn gwyro oddi ar y llwybrau da pan roedd y tywydd yn newid.

Dylanwadu ar ymwelwyr




Rydym wedi gweld cylched cyfryngau cymdeithasol caeedig (dangosir enghraifft uchod) lle mae ymwelwyr yn gweld postiad ar y cyfryngau cymdeithasol, yn teipio enw'r lle sy'n cael ei grybwyll ar ap mapio ac yna'n gyrru i'r man agosaf sy'n cael ei awgrymu. Nid yw ymwelwyr yn edrych ar wefannau "swyddogol" wedyn am ragor o wybodaeth, ac nid ydynt yn gweld unrhyw negeseuon. Ni all sefydliadau rheoli, gan gynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, hysbysu ymwelwyr am broblemau posibl ymlaen llaw, na'u rhybuddio pan fydd meysydd parcio safleoedd yn llawn. Mae dod o hyd i ffordd o ymgysylltu â'r sawl sy'n ymweld â ni ar y cyfryngau cymdeithasol yn allweddol.

Bydd Bro'r Sgydau, sy'n gyrchfan allweddol i ymwelwyr, yn beilot ar gyfer gweithio yn y modd hwn. Yn y lle cyntaf, mae cyrff cyhoeddus yn ailymgysylltu â'r ffordd y mae'r safle yn cael ei hyrwyddo. Mae'n ymddangos yn annhebygol y gallant ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfyngu ar y niferoedd yn sylweddol yn ystod y tymor prysur. Fodd bynnag, gallant gynnig gwybodaeth am yr ardal a pharatoi ymwelwyr yn fwy effeithiol ar gyfer yr hyn y gallant ei ddisgwyl, ac ar gyfer materion parcio. Bydd adran benodol ar wefan y gyrchfan – www.bannaubrycheiniog.co.uk – yn chwarae rôl wrth gynnig cyngor. Bydd gwaith ymgyrchu am y peryglon y mae sgydau yn eu creu i unrhyw un sy'n mynd i mewn i'r dŵr yn ddefnyddiol. Mae osgoi rhai o'r ymddygiadau peryglus sydd wedi arwain at anafiadau sy'n newid bywyd a marwolaeth pobl a aeth i'r safle i gael diwrnod pleserus allan, yn allweddol.

Fel rhan o'r gwaith rydym yn ei wneud i reoli ymwelwyr yn ddeinamig, rydym yn rhagweld ble maent eisiau mynd nawr, a nesaf. Yn y dyfodol, bydd yn hanfodol nodi tueddiadau yn y cyfryngau cymdeithasol a diddordeb cynyddol mewn mannau penodol. Gallai'r grŵp marchnata a gynigir yn adran 10.3 isod benderfynu sut y bydd

partneriaid yn monitro ac yn adrodd ar dueddiadau yn y cyfryngau cymdeithasol. Os byddant yn nodi cyllideb ac yn penderfynu ei bod yn briodol, gallant hefyd ymgysylltu â dylanwadwyr, blogwyr ac ati.

Gallai rhai safleoedd, fel Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol – sy'n cynnig cyngor i ymwelwyr (ynghyd â siop a chaffi) – elwa ar fod yn fwy gweladwy. Byddwn yn asesu'r ffordd y mae'r Parc Cenedlaethol, ei fannau hardd a'i ganolfannau ymwelwyr yn cael eu cynrychioli ar-lein, gan gynnwys ar apiau mapio.

Priorities for Objective 1

| | |
|---|---|
| Pre-arrival engagement | Engaging with visitors before they arrive, especially in social media spaces, to ensure they know about the terrain, parking, toilets, hospitality, and are aware of any issues at the site they wish to visit. |
| Messaging | We will find successful methods to challenge unhelpful advice from influencers when talking about our sites and provide alternative helpful narratives. |
| Online presence | The destination website and social media feeds aimed at visitors are run in partnership with Brecon Beacons Tourism. These will be reviewed and updated to meet the objectives of the strategy. |
| Place monitoring | We will assess the way the National Park, its beauty spots and visitor centres are represented online, including in mapping apps. We will work with partners to find appropriate methods to identify social media trends and look for growing interest in particular spots to help us manage the National Park as a destination. |

| Priorities for Objective 1 | Blaenoriaethau ar gyfer Amcan 1 |
|---|---|
| Ymgysylltu cyn cyrraedd | Ymgysylltu ag ymwelwyr cyn iddynt gyrraedd, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol, i sicrhau eu bod yn gwybod am y tir, parcio, toiledau, lletygarwch, ac yn ymwybodol o unrhyw faterion ar y safle y maent yn awyddus i ymweld ag ef. |
| Negeseuon | Byddwn yn dod o hyd i ffyrdd llwyddiannus o herio cyngor di-fudd gan ddylanwadwyr |

| | |
|---|---|
| | sy'n sôn am ein safleoedd a darparu naratifau defnyddiol amgen. |
| Presenoldeb ar-lein | Mae gwefan y gyrchfan a ffrydiau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymwelwyr yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â Twristiaeth Bannau Brycheiniog. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i fodloni amcanion y strategaeth. |
| Monitro lleoedd | Byddwn yn asesu'r ffordd y mae'r Parc Cenedlaethol, ei fannau hardd a'i ganolfannau ymwelwyr yn cael eu cynrychioli ar-lein, gan gynnwys ar apiau mapio. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i ffyrdd priodol o nodi tueddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn chwilio am ddiddordeb cynyddol mewn mannau penodol i'n helpu i reoli'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan. |

# 8. Nod 2: rheoli ymwelwyr er budd ein cymunedau – llwybr i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth trefi marchnad.

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y gellir gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo trefi marchnad, dathlu eu diwylliant a'u treftadaeth unigryw ac annog pobl i aros dros nos. Mae'n nodi strategaethau sy'n bodoli eisoes mewn awdurdodau lleol cyfagos i elwa'n economaidd ar groesawu mwy o ymwelwyr. Mae'r blaenoriaethau a nodir i gyflawni hyn wedi'u rhestru ar ddiwedd adran 8.

Yn 2024, cymeradwyodd Cyngor Sir Powys Astudiaeth Twristiaeth Ddiwylliannol a gynigiodd y dylid creu a marchnata rhwydwaith o drefi marchnad i ymwelwyr eu mwynhau.[27] Comisiynodd Cyngor Sir Fynwy Strategaeth Rheoli Cyrchfan hefyd sy'n argymell y dylai ei drefi marchnad gael eu hyrwyddo yn yr un modd. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn hyrwyddo deg o drefi ac mae'n awyddus i fod yn rhan o lwybr hyrwyddedig. Mae Swydd Henffordd yn Lloegr ond mae'n ffinio â'r Parc. Mae Swydd Henffordd hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo pum tref farchnad. Mae'n annhebygol y bydd gan ymwelwyr ddiddordeb ym mha Awdurdod Lleol y mae tref wedi'i lleoli

[27] Astudiaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Powys – Terfynol

ynddo. Bydd ganddynt fwy o ddiddordeb yn yr hyn sydd gan y trefi i'w gynnig yn ddiwylliannol a'u treftadaeth unigryw.

Mae'r cynigion hyn yn awgrymu bod yna drefi a phentrefi yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau sydd â llawer i'w gynnig i ymwelwyr yn ddiwylliannol ac o ran y safleoedd treftadaeth sydd wedi'u lleoli ynddynt. Gallai trefi o'r fath elwa ar rywfaint o'r budd economaidd sy'n deillio o gael mwy o ymwelwyr. Mae Astudiaeth Powys, er enghraifft, yn cynnig bod gan rai trefi a phentrefi gynnig cryf eisoes i ddenu ymwelwyr ac elwa arnynt. Mae'n sôn y gallai aneddiadau eraill fuddsoddi yn y gwaith o feithrin y gallu sydd ganddynt i greu cynnig deniadol o'r fath i ymwelwyr a dod yn rhan o'r rhwydwaith. Ochr yn ochr â chyfleoedd i gefnogi cynigion manwerthu a lletygarwch, mae hyn yn gyfle i hyrwyddo rhai safleoedd treftadaeth llai poblogaidd yn y trefi sy'n cael eu hyrwyddo a gerllaw.

Mae Croeso Cymru wedi nodi tuedd gynyddol lle mae ymwelwyr yn chwilio am brofiadau lleol, dilys. Mae'r astudiaeth yn nodi bod tri chwarter o farchnad y DU wedi mynd ar wyliau yn y DU yn ystod 2023. Mae nifer cynyddol o bobl o Ganolbarth Lloegr yn ymweld â chyrchfannau ym Mhowys am y tro cyntaf.

Dylid annog mwy o ymweliadau â threfi a phentrefi, drwy hyrwyddo eu pwyntiau gwerthu unigryw, er enghraifft cynnig treftadaeth fel cestyll, creiriau sy'n ymwneud â gorffennol porthmona ac ati, a'r arlwy manwerthu a lletygarwch sydd ar gael. Gallai mwy o ymwelwyr ddarparu budd lleol i strydoedd mawr a marchnadoedd sy'n wynebu trafferthion.

Mae cymunedau yn fwy tebygol o groesawu'r cyfle hwn os oes seilwaith ar waith i dderbyn yr ymwelwyr. Bydd angen mynd ati i asesu'r lleoedd parcio, y toiledau a'r drafnidiaeth gynaliadwy sydd ar gael a, lle y bo'n briodol, datblygu cynlluniau peilot i ddangos diddordeb gan ymwelwyr sy'n dymuno mwynhau'r arlwy diwylliannol a threftadaeth gwych sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol.

## 8.1 Rheoli'r nawr, buddsoddi yn y dyfodol.

Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â materion sy'n bodoli eisoes ac yn cynllunio ar gyfer twf yn y dyfodol ar yr un pryd. Er mwyn diogelu cymunedau a'r dirwedd, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddarparu atebion pwrpasol ar safleoedd allweddol. Gallai Awdurdodau Lleol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill ymgysylltu ar y cyd i ddatblygu atebion.

### 8.1.1 Creu a hyrwyddo rhwydwaith o drefi marchnad

Rydym yn cynnig bod partneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd i nodi'r trefi a fyddai'n cael budd o ymuno â'r rhwydwaith y mae Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau Powys, Sir Fynwy, Swydd Henffordd a Sir Gaerfyrddin yn ei gynnig. Bydd angen gwaith cychwynnol i nodi'r buddsoddiad cyfalaf y bydd ei angen i ddarparu rhwydwaith newydd (parcio ceir a thoiledau fydd y gofynion pennaf, fwy na thebyg).

Bydd mentrau newydd yn ystyried yr angen i ddarparu hyfforddiant, datblygu cynnyrch, a sicrhau bod yna weithgarwch rhwng busnesau. Byddai'n synhwyrol gweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill sy'n ffinio â'r Parc Cenedlaethol sydd â chynnig cryf i ymwelwyr ac sy'n awyddus i gael eu cynnwys mewn rhwydwaith newydd.

### 8.1.2 Profiad gyrru gyda phwyntiau gwefru trydan

Byddai'r cyfle yn cael ei gefnogi gan ymgyrch farchnata i annog perchnogion ceir trydan i ymweld â'r trefi, aros ynddynt a manteisio ar bwyntiau gwefru cerbydau trydan. Yn y dyfodol, bydd yn hanfodol bod seilwaith trydan cenedlaethol, llawn yn cael ei ddarparu ar gyfer Cymru wledig, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol.

Priorities for Goal 2

| | |
|---|---|
| Stakeholders | We will work closely in partnership with key stakeholders to select towns and villages to promote in line with the priorities identified by the Local Authority and the communities that will benefit. |
| Cultural and heritage attractions | We will work with communities in the selected market towns, both within the park and in surrounding areas, to identify cultural and heritage attractions which would encourage our visitors to stay overnight and for longer, bringing economic benefit. |
| Infrastructure | We will assess infrastructure, toilets, public transport links, EV charging opportunities, signage etc. We will identify funding opportunities to make any necessary infrastructure changes to engage with visitors, for the benefit of communities and to minimise negative impacts. |
| Sustainable transport | We will work with partners to assess the viability of delivering sustainable transport alternatives for visitors and residents to access the towns – in line with the National Park Authority's Net Zero transport strategy. |

| Priorities for Goal 2 | Blaenoriaethau ar gyfer Nod 2 |
|---|---|
| Rhanddeiliaid | Byddwn yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i ddewis trefi a phentrefi i'w hyrwyddo yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd gan yr |

| | |
|---|---|
| | Awdurdod Lleol a'r cymunedau a fydd yn elwa. |
| Atyniadau diwylliannol a threftadaeth | Byddwn yn gweithio gyda chymunedau yn y trefi marchnad a ddewisir, yn y parc ac mewn ardaloedd cyfagos, i nodi atyniadau diwylliannol a threftadaeth a fyddai'n annog ein hymwelwyr i aros dros nos ac am gyfnod hwy, gan sicrhau budd economaidd. |
| Seilwaith | Byddwn yn asesu seilwaith, toiledau, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleoedd i wefru cerbydau trydan, arwyddion ac ati. Byddwn yn nodi cyfleoedd ariannu i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r seilwaith i ymgysylltu ag ymwelwyr, er budd cymunedau ac i leihau effeithiau negyddol. |
| Trafnidiaeth gynaliadwy | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i asesu hyfywedd darparu dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy amgen i ymwelwyr a thrigolion gael mynediad i'r trefi – yn unol â strategaeth trafnidiaeth Sero Net Awdurdod y Parc Cenedlaethol. |

# 9. Amcan 4 – llunio canllawiau ar gyfer digwyddiadau ym mhob rhan o'r parc

Mae'r adran hon yn disgrifio'r manteision i randdeiliaid sydd ynghlwm wrth gytuno ar ganllawiau ar gyfer rheoli digwyddiadau ym mhob rhan o'r parc. Mae'r adran yn gorffen gyda'r flaenoriaeth i gyflawni'r amcan.

Mae Croeso Cymru yn tynnu sylw at y potensial sydd gan ddigwyddiadau i ddenu ymwelwyr i Gymru yn ei strategaeth Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025.[28] Cynhelir llu o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn yn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys dau ddigwyddiad mawr – Gŵyl Lenyddiaeth y Gelli a Gŵyl Gerddoriaeth y Dyn Gwyrdd. Mae'r Fenni, sydd wedi'i lleoli ychydig y tu allan i ffin y parc, yn cynnal yr Ŵyl Fwyd boblogaidd, ac mae Aberhonddu a Chrucywel yn cynnal digwyddiadau i ddathlu bwyd lleol.

[28] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/croeso-i-gymru-blaenoriaethau-ir-economi-ymwelwyr-2020-2025.pdf t18

Mae gwyliau cerddoriaeth arbenigol, llai o faint yn cael eu cynnal yng Nghrucywel ac Aberhonddu. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn trefnu Gŵyl Awyr Dywyll. Mae gwyliau cerdded yn boblogaidd, gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal yng Nghrucywel a Thalgarth.

Mae ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol yn aml yn aros dros nos i gymryd rhan mewn digwyddiadau. Mae hyn yn cynyddu gwerth y digwyddiad i'r gymuned, gan gefnogi darparwyr llety lleol a'r sector lletygarwch. Gall y trefnwyr ddewis pryd y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal, er enghraifft, ei drefnu pan fydd llai o ymwelwyr. Gall trefnwyr weithio gyda busnesau lleol i wneud cynnig cryf i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae *Park Runs*, lle mae cyfranogwyr yn rhedeg 5km mewn parciau lleol mewn digwyddiadau a drefnir bob wythnos, yn boblogaidd ledled y DU. Mae gan y Parc Cenedlaethol *Park Runs* yn Aberhonddu a'r Gelli a chynhelir mwy o ddigwyddiadau ar hyd ymylon deheuol y parc. Mae rhedwyr yn "casglu'r wyddor" ac mae Aberhonddu yn cael ei hadnabod fel Y Prom, gan ddenu llawer o ymwelwyr sy'n chwilio am ras sy'n dechrau gydag "Y" drwy gydol y flwyddyn. Ar ôl rhedeg, mae cyfranogwyr yn aml yn mynd am frecwast gerllaw, ac mae'r trefnwyr yn annog y rhedwyr i fynd i'r dref i gefnogi busnesau lleol.

Gyda'i gysylltiadau â gweithgareddau awyr agored, mae'r Parc Cenedlaethol yn gyrchfan arbennig o boblogaidd ar gyfer digwyddiadau cerdded, rhedeg a beicio. Fodd bynnag, gall y digwyddiadau hyn fod yn fwy problematig. Yn aml, mae'r digwyddiadau'n cael eu trefnu er budd elusen benodol neu er elw, a phan fyddant yn cael llawer o sylw, gallant ddenu llawer iawn o gyfranogwyr. Yn aml, nid yw'r trefnwyr yn bobl leol. Yn anffodus, nid yw llawer ohonynt yn sicrhau'r caniatadau priodol ar gyfer y tir y gall eu cyfranogwyr ei groesi, a dydyn nhw ddim yn darparu toiledau nac yn clirio i fyny ar ôl y digwyddiad. Yn 2025, y tro cyntaf i dirfeddiannwr a chymuned leol ddarganfod bod digwyddiad yn cael ei gynnal ar eu tir oedd pan yrrodd 300 o geir i mewn i gae.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi llunio canllawiau cyffredinol i drefnwyr digwyddiadau. Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru wrthi'n adolygu canllawiau i drefnwyr digwyddiadau o bob cwr o Gymru. Mae gan y tri Pharc yng Nghymru sedd ar y panel adolygu – yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, efallai y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn awyddus i sefydlu fforwm gyda phartneriaid eraill ar draws y Parc Cenedlaethol i ystyried sut i reoli digwyddiadau. Gallai cod ymddygiad, wedi'i ddatblygu ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cerdded ceunentydd ym Mro'r Sgydau, gynnig un opsiwn i'r Fforwm ystyried a yw model tebyg yn ymarferol ar gyfer rheoli digwyddiadau.

Priority for Objective 2

| Guideline review | The National Park Authority has created general guidelines for event organisers. The National Access Forum for Wales is currently reviewing guidelines for events organisers from across Wales. The three Welsh Parks have a seat on the review panel, depending on the outcome of the review, the National Park Authority may wish to establish a forum with other partners across the National Park to consider how to manage events. |
|---|---|

## 10: Amcan 5 – adeiladu'r dull partneriaeth gyda

| Priority for Objective 2 | Blaenoriaeth ar gyfer Amcan 2 |
|---|---|
| Adolygu canllawiau | Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi llunio canllawiau cyffredinol i drefnwyr digwyddiadau. Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru wrthi'n adolygu canllawiau i drefnwyr digwyddiadau o bob cwr o Gymru. Mae gan y tri pharc yng Nghymru sedd ar y panel adolygu ac, yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, efallai y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn awyddus i sefydlu fforwm gyda phartneriaid eraill ym mhob rhan o'r Parc Cenedlaethol i ystyried sut i reoli digwyddiadau. |

## phartneriaid a rhanddeiliaid i reoli a hyrwyddo'r gyrchfan trwy gydol y flwyddyn

Mae'r adran hon yn disgrifio ein partneriaid allweddol a'r dull sydd ei angen i gyflawni'r Amcanion ar gyfer rheoli'r gyrchfan yn llwyddiannus. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni hyn wedi'u rhestru ar ddiwedd adran 11.

### Ein partneriaid allweddol ar gyfer cyflawni'r Strategaeth yw:

#### 10.1 Twristiaeth Bannau Brycheiniog (neu BBT)

Mae Twristiaeth Bannau Brycheiniog (Brecon Beacons Tourism), a ffurfiwyd yn 2006, yn cael ei adnabod yn lleol fel BBT. Mae BBT yn sefydliad nid-er-elw a arweinir gan fusnesau sy'n ymroddedig i gryfhau a chynnal yr economi ymwelwyr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r cyffiniau.

O 2026, mae BBT wrthi'n tyfu ei aelodaeth, a welodd ostyngiad ar ôl y pandemig. Mae aelodaeth yn agored i fusnesau twristiaeth o bob maint, o ddarparwyr llety annibynnol a gweithredwyr gweithgareddau i atyniadau i ymwelwyr, busnesau lletygarwch a mentrau a arweinir gan y gymuned. Mae aelodaeth Cyflenwr a Phartneriaeth ar gael hefyd i fusnesau sy'n cefnogi ein heconomi ymwelwyr yn y rhanbarth. Ceir rhagor o fanylion am y ffyrdd rydym yn bwriadu gweithio gyda BBT a busnesau yn y Parc Cenedlaethol yn adran 12 isod.

## 10.2 Awdurdodau Lleol




Mae'r map uchod yn dangos yr Awdurdodau Lleol sy'n ffinio â'r Parc, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldebau o fewn ffin y Parc Cenedlaethol. Mae Awdurdodau Lleol Powys, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot, yn arbennig, yn gweld y Parc Cenedlaethol fel adnodd pwysig i ddenu twristiaid i aros dros nos o fewn eu ffiniau (y mae rhai ohonynt o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol a rhai y tu allan iddynt). Mae pob un o'u strategaethau adfywio yn nodi bod y Parc Cenedlaethol yn bwysig wrth ddenu ymwelwyr ac yn cynnwys targedau cynhyrchu incwm o ymwelwyr. Mae Sir Fynwy yn hyrwyddo ei hun fel rhan o'r Parc Cenedlaethol.[29] Er bod Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar hyrwyddo ei hasedau arfordirol, mae t11 o'u cynllun rheoli ymwelwyr yn nodi bod Bannau Brycheiniog yn bwysig wrth ddenu ymwelwyr i Sir Gaerfyrddin, ac mae diddordeb ganddynt yn ein menter Trefi Marchnad.

Mae siroedd sy'n cynnwys gwerth twristiaeth fel rhan o'u strategaethau adfywio eisiau i fwy o ymwelwyr aros dros nos. Yn ogystal â thalu am lety, mae ymwelwyr sy'n aros yn debygol o brynu bwyd, bwyta allan, mynd am ddiod ac ati ac efallai y byddant yn ymweld â mwy o atyniadau. Felly, mae Awdurdodau Lleol cyfagos yn gobeithio

[29] https://www.visitmonmouthshire.com/

temtio ymwelwyr i aros o fewn eu ffiniau daearyddol. Fel y mae'r map uchod yn dangos, bydd hyn yn aml yn golygu aros y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

# 11. Pobl a chymunedau: Cefnogi ein busnesau

Yn draddodiadol, mae BBT a llawer o fusnesau twristiaeth wedi defnyddio'r bartneriaeth cyrchfan ar gyfer:

- Hyfforddiant
- Cyfleoedd i rwydweithio â busnesau eraill
- Cyfleoedd i farchnata ar y cyd

## 11.1 Hyfforddiant

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi gweithio'n aml gyda phartneriaid, gan gynnwys BBT a Croeso Cymru, i helpu i ddarparu hyfforddiant i fusnesau. Gweithio ar y meysydd y gwnaethant nodi y byddent yn ddefnyddiol, ac ar y meysydd lle yr hoffem eu helpu i rannu negeseuon am rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol i ymwelwyr.

## 11.2 Llysgenhadon

Sefydlwyd y cynllun Llysgenhadon yn wreiddiol fel cyfle i fusnesau twristiaeth rwydweithio wyneb yn wyneb a dysgu mwy am y lle maent yn byw ac yn gweithio ynddo (ac, yn aml, yn ei garu) ar yr un pryd. Roedd y cynllun yn eu galluogi i rannu'r wybodaeth gyda'u hymwelwyr. Mae llawer o'r rhai a gymerodd ran yn y cynllun gwreiddiol wedi parhau i ymgysylltu'n weithredol ac yn adeiladol â Twristiaeth Bannau Brycheiniog a chyda'r Awdurdod.

Dros amser, mae'r cynllun wedi tyfu i gynnwys modiwlau sy'n cynrychioli'r Geoparc, yr Awyr Dywyll a Bioamrywiaeth.

Pan darodd Covid, penderfynwyd symud y cynllun ar-lein i sicrhau ei fod ar gael yn ehangach i'r bobl niferus a oedd yn gweithio ar-lein, o gartref. Mae'r cynllun ar-lein yn boblogaidd ac mae wedi cael ei gwblhau gan bobl o bob cwr o'r byd. Nid yw'n ofynnol i'w gynulleidfa newydd ymgysylltu ag ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

### 11.2.1 Modiwl llysgennad wyneb yn wyneb ar gyfer busnesau yn y Parc

Mae'r fersiwn ar-lein o'r cwrs yn ased i'r Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw cwblhau modiwlau ar-lein yn cynnig yr un cyfleoedd i fusnesau twristiaeth feithrin perthnasoedd. Yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer y strategaeth hon, soniodd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn y cynllun gwreiddiol eu bod yn colli'r manteision sydd ynghlwm wrth ddysgu wyneb yn wyneb. Os oes cyllid allanol ar gael, hoffem ailgyflwyno gweithgarwch wyneb yn wyneb ar gyfer busnesau twristiaeth yn y Parc, yn ychwanegol at yr opsiynau ar-lein. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i ehangu'r

rhwydwaith o Lysgenhadon lleol. Os eir ati i ddatblygu'r cynigion ynghylch hyrwyddo Trefi Marchnad a'u treftadaeth, efallai y bydd yn bosibl trefnu prosiect i greu hyrwyddwyr lleol sydd â gwybodaeth am eu trefi eu hunain a'u treftadaeth i rannu gydag ymwelwyr, er enghraifft.

### 11.2.2 Gwyliau/digwyddiadau ar gyfer Llysgenhadon nad ydynt wedi'u lleoli yn y Parc

Efallai y bydd awydd ymhlith y rhai sy'n cwblhau'r cwrs ar-lein, nad ydynt yn llysgenhadon busnes, i gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb. Byddwn yn ystyried y cyfle i greu cynnyrch ar eu cyfer trwy weithio gyda busnesau. Er enghraifft, gellid datblygu profiad gwyliau wedi'i deilwra i lysgenhadon (gyda theithiau cerdded a sgyrsiau gan wardeiniaid, swyddogion, tywyswyr lleol a darparwyr gweithgareddau awyr agored).

## 11.3 Cyfleoedd rhwydweithio i fusnesau

Mae Twristiaeth Bannau Brycheiniog wedi gweithio'n agos gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gynnig cyfle i fusnesau rwydweithio. Er enghraifft, cyflwyno lleoliadau lletygarwch a llety i gynhyrchwyr bwyd lleol gyda'r bwriad o ddatblygu cynnig lleol mwy cynaliadwy.

## 11.4 Cyfathrebu a marchnata ar y cyd

Mae'r wefan cyrchfan ddwyieithog yn bartneriaeth rhwng yr Awdurdod a Twristiaeth Bannau Brycheiniog (caiff ei chynnal gan yr Awdurdod ar hyn o bryd). Lansiwyd fersiwn newydd o'r wefan yn 2025. Yn flaenorol, roedd yn cael ei chefnogi gan gyllideb a ddaliwyd ac y cyfrannwyd ati gan sefydliadau a anfonodd aelodau i'r pwyllgor Marchnata. Mae'r wefan yn ffenestr siop hanfodol ar gyfer llefydd i ymweld â nhw yn y Parc ac i helpu ymwelwyr i ddod o hyd i fusnesau.

Bydd marchnata llety, atyniadau a digwyddiadau yn y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at gynyddu effaith economaidd twristiaeth ac yn cefnogi busnesau lleol. Mae Twristiaeth Bannau Brycheiniog wedi cynnig ein bod yn gweithio mewn partneriaeth i farchnata'r Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig, gan gynnwys busnesau gwyrdd. Gellid ceisio cyllideb a grantiau i ymgymryd â gweithgarwch marchnata effeithiol er budd busnesau a chymunedau. Byddai hyn yn canolbwyntio ar ymestyn y tymor ac annog y sawl sy'n ymweld am y dydd i aros dros nos.

Priorities for Objective 3

| | |
|---|---|
| Partnership development | Work closely with the Destination Management Partnership for the area to develop training, opportunities to network, and business-to-business promotion. |
| Towns and villages | Deliver benefit from a growth in the cultural tourism opportunities in our towns and villages. |
| Leverage designations | Maximise the opportunities of our international designations by working with the Dark Skies Board and the Geopark Partnership. |

| Priorities for Objective 3 | Blaenoriaethau ar gyfer Amcan 3 |
|---|---|
| Datblygu partneriaeth | Gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan ar gyfer yr ardal i ddatblygu hyfforddiant a chyfleoedd i rwydweithio, ac i hyrwyddo prynu a gwerthu rhwng busnesau. |
| Trefi a phentrefi | Sicrhau budd yn sgil twf yn y cyfleoedd twristiaeth ddiwylliannol yn ein trefi a'n pentrefi. |
| Manteisio ar ddynodiadau | Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae ein dynodiadau rhyngwladol yn eu cynnig trwy weithio gyda'r Bwrdd Awyr Dywyll a'r Bartneriaeth Geoparc. |

## 12. Adnoddau i gyflawni'r strategaeth

Mae'r adran hon yn disgrifio'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y strategaeth. Mae'r blaenoriaethau wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adran.

I gyflawni'r strategaeth, bydd angen buddsoddiad gan y Llywodraeth, cyllid grant, partneriaid a gweithgarwch codi arian. Efallai y bydd cyfleoedd masnachol yn deillio o ddatblygu seilwaith ond efallai y bydd angen buddsoddiad ymlaen llaw i gyflawni'r rhain.

## 12.1 Adnoddau o fewn cyrff cyhoeddus ac elusennau

Dros y deng mlynedd diwethaf, gwelwyd effaith mesurau cyni ledled y DU ar wasanaethau cyhoeddus, ac yna'r pandemig byd-eang a'r argyfwng costau byw dilynol. Ceisiodd Awdurdodau Lleol amddiffyn gwasanaethau y maent yn rhwym i'w darparu yn ôl statud. Nid yw rheoli ymwelwyr yn wasanaeth statudol, ac mae toriadau sylweddol wedi'u gwneud i dimau sy'n ymwneud ag ymwelwyr.

Mae'r profiad ym Mannau Brycheiniog, ac mewn Parciau Cenedlaethol eraill, yn awgrymu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â phobl i annog ymwelwyr i ddilyn canllawiau lleol a'r cod cefn gwlad, yw trwy gyswllt wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae'n galw am y nifer mwyaf o adnoddau hefyd. Mae Parc Cenedlaethol Loch Lomond a'r Trossachs, er enghraifft, yn cyflogi dros 30 o staff tymhorol ychwanegol yn ystod misoedd yr haf i gwrdd a chyfarch ymwelwyr ac i reoli eu safleoedd gwersylla – maent yn derbyn cyllid gan y llywodraeth ddatganoledig i wneud hyn.[30]

### 12.1.2 Wardeiniaid, staff cwrdd a chyfarch a gwirfoddolwyr

Mae gan sefydliadau ar draws y Parc Cenedlaethol lai o wardeiniaid a staff sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol ag ymwelwyr. Felly hefyd elusennau. Mae hyn wedi effeithio ar yr adnoddau sydd ganddynt i hysbysu a rheoli ymwelwyr ac ymgysylltu â nhw. Mae wardeiniaid Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn adrodd mai nhw, yn aml, yw'r unig staff wardeiniaid y gellir eu gweld yn y Parc Cenedlaethol. Yn ogystal â wardeiniaid, mae'r Awdurdod yn cyflogi staff ychwanegol ar ei safleoedd allweddol ei hun. Mae staff cwrdd a chyfarch yn cael eu cyflogi yn ystod cyfnodau prysur yn ardaloedd y Sgydau (meysydd parcio Cwm Porth a Gwaun Hepste) ac yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod yn elwa ar dîm o wirfoddolwyr sy'n ymgymryd ag ystod eang o dasgau, gan gynnwys casglu sbwriel a rhoi gwybodaeth i ymwelwyr.

Byddai tîm mwy o wirfoddolwyr ar lawr gwlad yn ystod penwythnosau, gwyliau banc a thrwy gydol y tymor prysur yn helpu i ddelio â materion nawr ac yn y dyfodol. Targedu ymwelwyr yn y safleoedd y mae gofyn i'r tîm Achub Mynydd fynd iddynt yn fwyaf aml, er enghraifft, neu lle mae angen mynd i'r afael â materion penodol. Gellid eu defnyddio hefyd fel tasglu deinamig i helpu i gyfeirio ymwelwyr at leoliad penodol sy'n cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae angen i wirfoddolwyr gael digon o gefnogaeth a rheolaeth gan staff ar lawr gwlad ac, os ydynt am elwa ar fwy o ymgysylltiad, byddai angen i'r Awdurdod a'i bartneriaid sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer y ddarpariaeth ychwanegol hon. Gall prosiectau i ariannu ymgysylltiad o'r fath godi wrth i'r cynllun gweithredu gael ei ddatblygu, os bydd rhanddeiliaid yn cytuno y dylid blaenoriaethu hyn.

---

[30] https://www.lochlomond-trossachs.org/wp-content/uploads/2021/12/17.-Agenda-Item-12-zAppendix-1-Season-Review-2021.pdf t13-14

### 12.1.3 Canolfannau ymwelwyr

Mae canolfannau ymwelwyr yn adnodd allweddol i'r rhai sy'n ymweld â'r ardal. Mae'r cyllid a'r staff sydd eu hangen ar gyfer y rhain yn amrywio ar draws pob safle, a rhoddir manylion yn y tabl isod.

| Enw | Staff | Wedi'i ariannu gan |
|---|---|---|
| Canolfan Ymwelwyr, siop a chaffi'r Parc Cenedlaethol | Safle dan arweiniad yr awdurdod<br>Staff gwybodaeth, sy'n cael eu cefnogi drwy gydweithrediad â gwneuthurwyr celf a chrefft sy'n darparu cynrychiolwyr yn y siop. Mae gwirfoddolwyr yn casglu sbwriel ar y safle ac yn cynnig gwybodaeth. Mae'r caffi yn fasnachfraint ac yn cyflogi ei staff ei hun. | Awdurdod y Parc Cenedlaethol gyda refeniw o weithgareddau masnachol ar y safle. |
| Canolfan Groeso'r Fenni | Safle partneriaeth<br>Staff gwybodaeth (a staff tocynnau o theatr y Fenni?) | Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyngor Tref y Fenni |
| Croeso Aberhonddu | Safle yn nhref Aberhonddu gyda nifer bach o staff cyflogedig a gefnogir gan wirfoddolwyr | Cyngor Tref Aberhonddu |
| CRiC | Safle yn nhref Crucywel<br>Nifer bach o staff cyflogedig, a gefnogir gan wirfoddolwyr | Bwrdd rheoli Cyngor Tref Crucywel a refeniw |
| Canolfan Groeso Talgarth | Mae gwirfoddolwyr yn gweithio yn y siop ac yn rhoi gwybodaeth | Hunanariannu o refeniw |
| Swyddfa Groeso'r Gelli | Siambr Fasnach, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr | |
| Blaenafon | Staff yr Awdurdod Lleol | Rhan o Ganolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon |
| Canolfan ymwelwyr Forest Holidays yng Ngarwnant | Staff ar y safle yn cynnig cyngor i ymwelwyr | Gweithwyr Forest Holidays |
| Cwm Porth a Gwaun Hepste | Safleoedd dan arweiniad y Parc Cenedlaethol sy'n cynnig maes parcio â | Awdurdod y Parc Cenedlaethol, wedi'i |

| | | |
|---|---|---|
| | thâl, siop yng Nghwm Porth a gwybodaeth am y sgydau (ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae staff llawn amser yn cael eu cefnogi gan staff tymhorol cyflogedig a gwirfoddolwyr | ategu gan refeniw o safleoedd. |
| Merthyr ar-lein | Dim canolfan ond gwybodaeth ar-lein | Gwybodaeth ar-lein sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor Sir Merthyr Tudful |

Mae canolfannau ymwelwyr yn adnodd hanfodol i ymwelwyr ac yn sicrhau bod modd cydgysylltu negeseuon i ymwelwyr yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr gwybodus a phrofiadol yn y canolfannau yn rhan hanfodol o ddeall y blaenoriaethau i ymwelwyr. Maent mewn sefyllfa ddelfrydol i roi cyngor ar sut i ymgysylltu ag ymwelwyr ac i drosglwyddo gwybodaeth am yr hyn y gellir ei ddisgwyl iddynt.

Priority for Objective 4

| | |
|---|---|
| Visitor contributions | The National Park Authority will work with all our stakeholders to ensure the maximum benefit is derived from our collective, but limited capacity to engage with visitors. We know that face to face contact with our wardens, meet and greet staff, volunteers, and information teams is both valued by visitors, and is the most effective way of providing information and advice, and influencing their behaviour when they are in the National Park. |

| Priority for Objective 4 | Blaenoriaeth ar gyfer Amcan 4 |
|---|---|
| Cyfraniadau ymwelwyr | Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda phob un o'n rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posibl o'n gallu cyfunol ond cyfyngedig i ymgysylltu ag ymwelwyr. Rydym yn gwybod bod ymwelwyr yn gwerthfawrogi'r cyswllt wyneb yn wyneb y maent yn ei gael â'n wardeiniaid, staff cwrdd a chyfarch, gwirfoddolwyr, a thimau gwybodaeth, ac mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwybodaeth a chyngor, a dylanwadu ar y ffordd y maent yn ymddwyn pan fyddant yn y Parc Cenedlaethol. |

# 13. Cefndir

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am y cyfrifoldebau sydd gan yr Awdurdod mewn perthynas â rheoli'r gyrchfan ar gyfer ymwelwyr, a'r dirwedd bolisi sy'n effeithio ar fusnesau twristiaeth yn 2025/2026.

## 13.1 Cyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perthynas â Rheoli Cyrchfan.

### 13.1 Canllawiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ynglŷn â blaenoriaethau'r sefydliad yn ystod tymor y llywodraeth. Mae'r llythyr diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025 yn nodi pwysigrwydd twristiaeth i Gymru yn glir:

"Ein huchelgais yw 'tyfu twristiaeth er lles Cymru'. Mae pobl yn dewis ymweld â Chymru i fwynhau ein hamgylchedd naturiol gwych, yn ogystal â phrofi ein diwylliant, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Mae rôl eich cyrff wrth sicrhau bod modd rheoli ymwelwyr yn well i leihau effaith twristiaeth ar yr amgylchedd ac ar eich cymunedau yn hanfodol."[31]

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am y canlynol:

- "Cefnogi symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio ceir preifat i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau ymhlith staff, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaeth.
- Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i'r pwysau y mae ymwelwyr yn ei roi ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamdden cyfrifol.
- Cynyddu cyfleoedd i bobl o grwpiau bregus neu dan anfantais a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli.
- Cefnogi'r gwaith o ddynodi dyfroedd ymdrochi mewndirol."

### 13.2 Adroddiad Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy

Yn 2022, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad a oedd yn mynd i'r afael â'r cwestiwn: "A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth y gall i reoli twristiaeth gynaliadwy'n effeithiol yn y Parc Cenedlaethol?"[32] Roedd eu harchwiliad yn cydnabod bod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog statws unigryw ymhlith y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru fel un o'r Sefydliadau Rheoli Cyrchfan. Fel arfer, yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y tir yn y Parc Cenedlaethol sydd â'r statws hwn.

[31] needs updating when published on Gov website
[32] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Twristiaeth Gynaliadwy | Archwilio Cymru

Mae Bannau Brycheiniog wedi'i amgylchynu gan wyth Awdurdod Lleol, y mae pump ohonynt yn gyfrifol am dir o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol (gweler t29 am fap o'r rhain). Cafodd y Parc Cenedlaethol, ynghyd â'i bartner, Twristiaeth Bannau Brycheiniog, eu dynodi fel y Sefydliad Rheoli Cyrchfan a'u cydnabod gan Croeso Cymru. Mae'r dynodiad yn cydnabod cyfrifoldeb am frandio'r gyrchfan, er enghraifft, ac weithiau, yr hawl i wneud cais am grantiau.

Gwnaeth yr adroddiad archwilio yr argymhellion canlynol i'r Awdurdod

1. Diffinio a chytuno ar weledigaeth a rennir o dwristiaeth gynaliadwy wedi'i datblygu gyda staff, aelodau a rhanddeiliaid
2. Ailadeiladu capasiti staff twristiaeth i gyflawni nodau
3. Gwella'r ymwneud â rhanddeiliaid

## 13.3 Cyd-destunau polisi – Y cefndir yr ydym yn rheoli'r gyrchfan yn ei erbyn

### 13.3.1 Polisi ehangach Llywodraeth Cymru

Mae Dyfodol Y Bannau, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, yn esbonio bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth arloesol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn diffinio cyfres o nodau llesiant i'r genedl. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgorffori'r nodau hyn wrth lunio eu hamcanion a'u polisïau eu hunain.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys y nod o ddod yn 'gyfrifol yn fyd-eang'. Ein nod wrth weithredu dyletswydd a dibenion statudol y Parc Cenedlaethol yw cyfrannu'n gadarnhaol at y nod llesiant hwn. Mae'r Strategaeth hon yn dod o fewn y strwythurau polisi ar gyfer Cymru ac ar gyfer y Parc Cenedlaethol.

### 13.3.1 Polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thwristiaeth

Yn ystod 2024-25, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nifer o statudau sydd (o haf 2025 ymlaen) yn effeithio ar fusnesau yn y sector twristiaeth fel a ganlyn:

Y rheol 182 diwrnod: Cyflwynodd Llywodraeth Cymru reol bod yn rhaid i lety gwyliau hunanarlwyo gael ei feddiannu am 182 noson er mwyn bod yn gymwys i dalu ardrethi busnes. Nodwyd bod angen iddo gael ei feddiannu am 70 noson yn wreiddiol, ond cyflwynwyd y trothwy uwch i sicrhau bod llety gwyliau yn cael ei feddiannu ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio fel ail gartref. Ym mis Tachwedd 2024, ychwanegodd pwyllgor craffu Cyngor Sir Fynwy eu llais at y rhai a oedd yn gofyn i'r llywodraeth ailystyried y trothwy.[33] Roeddent yn dadlau bod llawer o lety gwyliau hunanarlwyo yn

[33] https://www.monmouthshirebeacon.co.uk/news/community-news/self-catering-lets-rule-of-182-days-too-high-740751

ei chael hi'n anodd llenwi'r eiddo yn ddigonol i gwrdd â'r trothwy uwch, ac y dylid ei ostwng.

Taliadau treth gyngor premiwm ar ail gartrefi: Ar ôl y pandemig, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fesur arall i fynd i'r afael â phryderon lleol am effaith ail gartrefi. Roeddent eisiau mynd i'r afael â phrisiau tai chwyddedig i bobl leol yn y farchnad eiddo. Eu bwriad oedd sicrhau bod mwy o gartrefi ar gael i bobl leol ac, yn arbennig, i ddarparu tai fforddiadwy. Gall Awdurdodau Lleol godi hyd at dair gwaith cymaint o dreth gyngor ar ail gartrefi nawr. Mae'r ymateb gan Gynghorau sydd â chymunedau yn y Parc Cenedlaethol wedi amrywio'n fawr. Mae Powys, Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin wedi cymryd ymagweddau gwahanol tuag at gyflwyno'r dreth. Mae atodiad 1 yn cynnwys tabl sy'n amlinellu'r ymateb cychwynnol gan bob Cyngor. Mae'r polisi wedi profi i fod yn begynol ledled Cymru. Mae rhai grwpiau yn croesawu'r dreth, tra bod eraill wedi codi pryderon bod perchnogion ail gartrefi yn rhan hanfodol o'r economi ymwelwyr.[34] Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod adolygu'r polisi hwn ar y sail eu bod yn ei ystyried yn rhan hanfodol o'u hymrwymiad i ddarparu tai fforddiadwy, drwy atal perchnogaeth ail gartrefi.[35]

Ardoll ymwelwyr: Lansiwyd ymgynghoriad ar gyflwyno ardoll ymwelwyr yng Nghymru yn 2024 gyda'r bwriad y byddai'n dod yn gyfraith yn 2027. Roedd disgwyl i'r ardoll gynhyrchu incwm i fynd i'r afael â phryderon cymunedau lleol ac i wella'r seilwaith i ymwelwyr. Cyflwynodd pob un o'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru, ynghyd â llawer o fusnesau twristiaeth, dystiolaeth a oedd yn codi pryderon am y cynigion presennol. Yn benodol, mynegwyd pryder na fyddai'r arian a fyddai'n cael ei godi o'r ardoll o fewn ffin y Parc Cenedlaethol yn cael ei neilltuo i liniaru'r effeithiau y mae ymwelwyr yn eu cael.

Cofrestr: er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety i ymwelwyr sy'n gweithredu yng Nghymru erbyn 2027. Bydd y gofrestr yn cynnwys y math o lety i ymwelwyr a lleoliad yr eiddo y maent yn ei weithredu ledled Cymru. Bydd yn ofynnol i bob un o'r rheini sy'n darparu llety i ymwelwyr gofrestru, ni waeth a yw'r ardal Awdurdod Lleol y maent yn gweithredu ynddi wedi dewis cyflwyno ardoll ymwelwyr ai peidio. Bydd cynllun trwyddedu yn dilyn hyn.

Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer eiddo hunanarlwyo: Mae llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gynigion i'w gwneud yn ofynnol i eiddo hunanarlwyo nad yw'n gwneud hynny eto i gymryd camau i wella ei sgôr effeithlonrwydd (gan ei chodi i lefel C EPC) erbyn 2030.[36] Yn flaenorol, nid oedd angen i eiddo a ddefnyddiwyd yn bennaf

[34] https://thenegotiator.co.uk/news/regulation-law-news/open-warfare-breaks-out-over-welsh-second-homes-tax/ (mae'r Negotiator yn gylchgrawn ar-lein ar gyfer asiantau tai)
[35] https://www.partyof.wales/2022_tai_housing
[36] https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/energyefficiency/

ar gyfer arosiadau byr, neu mewn tywydd cynhesach, fodloni'r un lefelau o inswleiddio ac ati ag adeiladau preswyl.




**Policy impacts on the self-catering holiday accommodation sector in Wales and England. The graphic, compiled by sector body PASC UK, shows Wales disproportionately affected**

(Image: PASC UK)

| | |
|---|---|
| CUMULATIVE £££ IMPACTS ON THE SELF-CATERING SECTOR | EFFEITHIAU £££ CRONNOL AR Y SECTOR HUNANARLWYO |
| EMPLOYMENT RIGHTS BILL<br>UK | BIL HAWLIAU CYFLOGAETH<br>DU |
| STATUTORY REGISTRATION<br>England | COFRESTRU STATUDOL<br>Lloegr |
| STATUTORY REGISTRATION<br>Wales | COFRESTRU STATUDOL<br>Cymru |
| STATUTORY LICENSING<br>Wales | TRWYDDEDU STATUDOL<br>Cymru |

| | |
|---|---|
| VISITOR LEVY<br>Wales | ARDOLL YMWELWYR<br>Cymru |
| ARTICLE 4<br>Wales | ERTHYGL 4<br>Cymru |
| 182 DAY THRESHOLD<br>Wales | TROTHWY 182 DIWRNOD<br>Cymru |
| EPC’s<br>Eng & Wales | TYSTYSGRIF PERFFORMIAD YNNI<br>Cymru a Lloegr |
| BUSINESS RATES RISE<br>Eng & Wales | CYNNYDD MEWN ARDRETHI BUSNES<br>Cymru a Lloegr |
| NATIONAL INSURANCE INCREASE<br>UK | CYNNYDD MEWN YSWIRIANT GWLADOL<br>DU |
| MINIMUM WAGE<br>UK | ISAFSWM CYFLOG<br>DU |
| FIRE REGULATIONS<br>Eng & Wales | RHEOLIADAU TÂN<br>Cymru a Lloegr |
| FHL ABOLITION<br>UK | DIDDYMU’R RHEOLAU LLETY GWYLIAU WEDI’U DODREFNU<br>DU |
| WASTE LEGISLATION<br>Wales | DEDDFWRIAETH GWASTRAFF<br>Cymru |
| PLANNING TOOLBOX FOR COUNCILS<br>England | PECYN CYMORTH CYNLLUNIO AR GYFER CYNGHORAU<br>Lloegr |
| RENTERS REFORM<br>England | BIL RHENTWYR (DIWYGIO)<br>Lloegr |
| HMRC INTERMEDIARIES REPORTING<br>UK | ADRODDIADAU CYFRYNGWYR CTHEF<br>DU |
| COUNCIL TAX PREMIUMS<br>Eng & Wales | PREMIYMAU’R DRETH GYNGOR<br>Cymru a Lloegr |
| CMA DISPLAY OF OWNER DETAILS<br>UK | DANGOS MANYLION PERCHNOGION - CMA<br>DU |
| CMA DRIP PRICING & FAKE REVIEWS<br>UK | PRISIO YCHWANEGOL CUDD AC ADOLYGIADAU FFUG – CMA<br>DU |
| KEY | ALLWEDD |
| Serious Financial Impact | Effaith Ariannol Ddifrifol |
| Minor Financial Impact | Effaith Ariannol Fach |
| Positive Financial Impact | Effaith Ariannol Gadarnhaol |
| Policy impacts on the self-catering holiday accommodation sector in Wales and England. The graphic, compiled by sector body PASC UK, shows Wales disproportionately affected<br>(Image: PASC UK) | Effeithiau polisïau ar y sector llety gwyliau hunanarlwyo yng Nghymru a Lloegr. Mae’r graffigyn, a gasglwyd ynghyd gan y corff sector PASC UK, yn dangos bod yna effaith anghymesur ar Gymru (Llun: PASC UK) |

### 13.3.2 Casgliad o ran effeithiau polisi

Mae cyhoeddi'r polisïau hyn mor agos at ei gilydd wedi cael effaith arbennig ar y diwydiant ymwelwyr. Maent wedi adrodd eu bod yn teimlo'n bryderus, ac yn wynebu ystod ddryslyd o ofynion ym marn rhai. Mae'r sefydliad busnes sy'n cefnogi perchnogion eiddo hunanarlwyo wedi creu'r graffig hwn i nodi nifer y polisïau sy'n effeithio arnynt ar hyn o bryd:

Un o'r nodau ar gyfer y Bartneriaeth Cyrchfan yw dod o hyd i ffyrdd o gefnogi ein busnesau. Mae papur Croeso Cymru, "Croeso i Gymru – blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025" yn nodi:
"Rydym am sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa gystadleuol gref ar gyfer y dyfodol. Dros y blynyddoedd nesaf rydym am wella ein ffocws masnachol a'n gallu i gefnogi proffidioldeb y diwydiant."

Nid oes gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol gyfrifoldeb uniongyrchol am adfywio. Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol y gall yr Awdurdod gefnogi busnes yw sicrhau bod y safleoedd a'r hawliau tramwy yn cael eu rheoli'n effeithiol i fod yn ddeniadol i'w darpar gwsmeriaid. Bydd darparu seilwaith priodol a llunio cynlluniau ar gyfer rheoli twf yn helpu busnesau i gynllunio'n fwy effeithiol.

### 13.3 Effeithiau'r pandemig

Er ei fod yn teimlo fel hanes, mae effeithiau'r pandemig i'w gweld o hyd yn 2026.

Nid ydym wedi gweld adnoddau a busnesau newydd yn lle'r rhai a gollwyd yn ystod y pandemig. Yn 2020/21, roedd cyfarwyddyd y llywodraeth i aros gartref yn golygu bod pobl nad oeddent yn byw mewn Parciau Cenedlaethol yn cael eu gwahardd rhag teithio iddynt. Roedd y cynllun ffyrlo, a rhai grantiau yn cynnig cymorth. Fodd bynnag, cafodd y pandemig effaith fawr ar lawer o fusnesau a sefydliadau sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol ag ymwelwyr. Er enghraifft, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod dros 1,200 o swyddi wedi cael eu colli trwy ymddeoliadau gwirfoddol a diswyddiadau ar ddiwedd y pandemig.[37]

Cafodd y pandemig effaith ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wrth i fwy o bobl geisio mynediad i'r awyr agored i fwynhau gweithgareddau cymdeithasol, fel y disgrifiwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a ddywedodd:
"Mae COVID-19 wedi tanlinellu rôl bwysig awdurdodau'r parciau cenedlaethol o ran hyrwyddo a rheoli twristiaeth. Mae economi leol pob parc yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth, ond mae angen ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau nad yw'r dirwedd naturiol, bioamrywiaeth, na chymunedau lleol yn cael eu gorlethu a'u gadael, at ei gilydd, ar eu colled o'r herwydd."[38]

---

[37] https://www.nationaltrust.org.uk/who-we-are/news/weve-reduced-compulsory-job-losses-following-consultation

[38] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Twristiaeth Gynaliadwy | Archwilio Cymru t5

# Atodiadau

## Atodiad 1: data

Isod ceir mwy o'r data y mae'r awdur wedi dibynnu arno i lunio'r adroddiad.

### 1.1 Ble y gall ymwelwyr aros yn y Parc Cenedlaethol?

STEAM REPORT FOR 2013-2024 - FINAL
BANNAU BRYCHEINIOG NATIONAL PARK

| SERVICED ACCOMMODATION 2024 | 2024 | | Change on 2023 | | Change on 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Est. | Beds | Est. | Beds | Est. | Beds |
| Serviced Accommodation Total | 156 | 1,970 | 0 | -54 | -13 | -110 |
| +50 room hotels | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 11-50 room hotels | 21 | 933 | 0 | 0 | -1 | -48 |
| <10 room hotels/others | 135 | 1,037 | 0 | -54 | -12 | -62 |

| NON-SERVICED ACCOMMODATION 2024 | 2024 | | Change on 2023 | | Change on 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Est. | Beds | Est. | Beds | Est. | Beds |
| Non-Serviced Accommodation Total | 439 | 10,856 | +14 | +282 | +90 | +2,976 |
| Self catering | 361 | 3,008 | +15 | +263 | +76 | +505 |
| Static caravans/chalets | 23 | 596 | +3 | +72 | +20 | +248 |
| Touring caravans/camping | 55 | 4,446 | -4 | -348 | -6 | -243 |
| Not-for-hire statics | 0 | 340 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Airbnb | 0 | 2,466 | 0 | +295 | | |

| DISTRIBUTION BY TYPE OF ACCOMMODATION 2024 | 2024 | | Change on 2023 | | Change on 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Est. | Beds | Est. | Beds | Est. | Beds |
| All Paid Accommodation Total | 595 | 12,826 | +14 | +228 | +77 | +2,866 |
| Serviced Accommodation Share of Total | 26% | 15% | | | | |
| Non-Serviced Accommodation Share of Total | 74% | 85% | | | | |


Tabl sy'n dangos y cyflenwad o stoc gwelyau yn 2024 – 1,970 mewn llety â gwasanaeth a 10,856 mewn llety heb wasanaeth.

Tabl sy'n dangos nifer yr ymwelwyr a arhosodd ym mha lety yn 2023 (yn ôl miliwn)

| | M |
|---|---|
| Serviced | 0.21 |
| Non-Serviced | 0.22 |
| SFR | 0.05 |
| Staying Visitor | 0.48 |
| Day Visitor | 3.52 |
| Total | 4.00 |

| Allwedd | |
|---|---|
| Llety â gwasanaeth | Gwestai a llety gwely a brecwast |
| Llety heb wasanaeth | Hunanarlwyo, carafanau statig a theithiol a lleiniau gwersylla, Airbnb |
| SFR | Aros gyda ffrindiau a pherthnasau |

| 2024 | STAYING VISITORS | ACCOMMODATION SUPPLY DISTRIBUTION BY TYPE |
|---|---|---|




| SEASONAL AVAILABILITY OF BED SUPPLY 2024 | 2024 | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | JAN | FEB | MAR | APR | MAY | JUN | JUL | AUG | SEP | OCT | NOV | DEC |
| All Paid Accommodation Total | 7,932 | 7,430 | 9,247 | 12,255 | 12,261 | 12,536 | 12,401 | 12,373 | 12,660 | 12,748 | 8,472 | 8,277 |
| Serviced Accommodation | 1,870 | 1,934 | 1,963 | 1,965 | 1,970 | 1,970 | 1,970 | 1,970 | 1,970 | 1,970 | 1,950 | 1,922 |
| Non-Serviced Accommodation | 6,062 | 5,496 | 7,284 | 10,290 | 10,291 | 10,566 | 10,431 | 10,403 | 10,690 | 10,778 | 6,522 | 6,355 |

Mae'r siart a'r tabl uchod yn dangos bod y cyflenwad o stoc gwelyau fel y'i rhestrwyd yn STEAM 2024 yn agos at y capasiti o fis Ebril hyd at ddiwedd mis Hydref, ond roedd capasiti o fis Tachwedd hyd at ddiwedd mis Mawrth. Mae hyn yn awgrymu y byddai cynyddu'r llety sydd ar gael ar gyfer y misoedd hynny (h.y. y tymor prysur) yn fuddiol wrth gynnig amrywiaeth o lety i ymwelwyr aros ynddo. Mae hefyd yn awgrymu bod lle i fwy o ymwelwyr ym mis Tachwedd hyd at fis Mawrth – er nad oes gennym ffigurau ar gyfer pa lety sy'n parhau i fod ar agor yn ystod y cyfnod hwn (efallai na fydd cytiau bugeiliaid, iwrtiau ac ati yn addas yn y misoedd oerach).

Cyhoeddodd Cyngor Sir Powys ddiweddariad i lywio eu Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2024[39]. Mae'r tablau canlynol yn cynnwys rhai trefi o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol – maent yn rhestru nifer yr eiddo i'w osod yn hytrach na nifer y gwelyau.

Nifer a chyfran y llety gwyliau tymor byr yn ôl lleoliad

| Lleoliad | Cyfanswm nifer y llety gwyliau | Cyfanswm nifer yr eiddo preswyl | Canran |
|---|---|---|---|
| Aberhonddu | 161 | 7275 | 2.20% |
| Y Gelli a Thalgarth | 109 | 4565 | 2.40% |
| Crucywel | 72 | 3545 | 2.00% |


Mae'r tabl yn dangos mai ardaloedd 'Aberhonddu' a 'Y Gelli a Thalgarth' sydd â'r nifer a'r gyfran uchaf o lety gwyliau tymor byr ym Mhowys gyfan, er ei fod yn parhau i gyfrif am tua 2-3% o'r holl eiddo preswyl. Cyfartaledd yr eiddo preswyl sy'n cael ei ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr ar gyfer Powys gyfan yw 1.3%. Mae'r cyfrannau uwch o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu gerllaw.

Nifer y llety gwyliau tymor byr yn ôl ardal Cyngor Cymuned neu ar ffin y Parc Cenedlaethol
Data o Gyngor Sir Powys.


| Ardal Cyngor Tref/Cymuned | Nifer y llety tymor byr |
|---|---|
| Tal-y-bont ar Wysg | 33 |
| Y Gelli | 33 |
| Aberhonddu | 27 |
| Ystradgynlais | 20 |
| Cleirwy | 19 |
| Llanfrynach | 18 |
| Llan-gors | 15 |
| ***cyfanswm*** | ***165*** |

39 https://ldp.powys.gov.uk/docfiles/36/3.%20Replacement%20LDP%20Second%20Homes%20and%20Short%20Term%20Holiday%20Lets.pdf

Mae'r siart far hon yn dangos bod llawer mwy o fusnesau llety hunanarlwyo (289) yn talu ardrethi busnes yn 2025 o gymharu â busnesau llety eraill (y mwyaf nesaf yw 40 o fusnesau gwersylla).[40]




Siart gylch sy'n dangos canrannau mathau o fusnesau llety sy'n talu ardrethi busnes o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol




Mae'n ymddangos yn debygol y bydd ystod eang o lety yn denu ystod eang o ymwelwyr i aros yn y Parc Cenedlaethol. Mae gan westai gwledig, llety gwely a brecwast, iwrtiau, llety hunanarlwyo ac ati rôl i'w chwarae ar gyfer demograffeg gwahanol.

Cyn cyflwyno Ardoll Ymwelwyr, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno proses gofrestru orfodol ar gyfer pob llety hunanarlwyo. Bydd yr ardoll yn cael ei chasglu gan Awdurdod Refeniw Cymru. Mae'r Awdurdod Refeniw yn bwriadu sicrhau bod y data maent yn ei gasglu, sydd ar gael i'r cyhoedd, ar gael i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Byddant yn darparu data i fusnesau o fewn cod post o fewn ffiniau'r Parc. Bydd hyn yn helpu i greu darlun mwy effeithiol o'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y Parc Cenedlaethol.

[40] Mae'r data wedi'i gymryd o ddata ar daliadau ardrethi busnes a wnaed yn 2025 ar gyfer Powys, Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin a Thorfaen. Mae'r data yn cael ei hidlo ar gyfer codau post o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol.

## Data STEAM ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – ffigurau diweddaraf 2024 o gymharu â 2023

STEAM REPORT FOR 2013-2024 - FINAL
BANNAU BRYCHEINIOG NATIONAL PARK


Comparing 2024 and 2023 — All £'s Historic Prices — COMPARATIVE HEADLINES

KEY PERFORMANCE INDICATORS BY TYPE OF VISITOR - COMPARING 2024 & 2023 - IN HISTORIC PRICES


KEY: An increase of 3% or more / Less than 3% change / A Fall of 3% or more

| | | Staying in Paid Accommodation | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Serviced | | | Non-Serviced | | | Staying with Friends and Relatives (SFR) | | | All Staying Visitors | | | Day Visitors | | | All Visitor Types | | |
| | | 2024 | 2023 | +/- % | 2024 | 2023 | +/- % | 2024 | 2023 | +/- % | 2024 | 2023 | +/- % | 2024 | 2023 | +/- % | 2024 | 2023 | +/- % |
| Visitor Days | M | 0.357 | 0.367 | -2.6% | 1.470 | 1.379 | 6.6% | 0.127 | 0.127 | 0.4% | 1.955 | 1.873 | 4.4% | 3.341 | 3.521 | -5.1% | 5.296 | 5.393 | -1.8% |
| Visitor Numbers | M | 0.201 | 0.206 | -2.4% | 0.233 | 0.220 | 6.0% | 0.053 | 0.053 | 0.4% | 0.487 | 0.479 | 1.7% | 3.341 | 3.521 | -5.1% | 3.828 | 3.999 | -4.3% |
| Direct Expenditure | £M | | | | | | | | | | | | | | | | 320.57 | 304.78 | 5.2% |
| Economic Impact | £M | 67.55 | 65.98 | 2.4% | 201.81 | 180.81 | 11.6% | 10.99 | 10.43 | 5.4% | 280.35 | 257.22 | 9.0% | 154.18 | 154.81 | -0.4% | 434.53 | 412.03 | 5.5% |
| Direct Employment | FTEs | 807 | 822 | -1.9% | 1,467 | 1,416 | 3.6% | 67 | 68 | -2.7% | 2,341 | 2,307 | 1.5% | 929 | 1,010 | -8.0% | 3,270 | 3,318 | -1.4% |
| Total Employment | FTEs | | | | | | | | | | | | | | | | 4,056 | 4,118 | -1.5% |

PERCENTAGE CHANGE BY VISITOR TYPE AND PERFORMANCE MEASURE - COMPARING 2024 & 2023 - IN HISTORIC PRICES





Sectoral Distribution of Economic Impact - £M including VAT in Historic Prices




Sectoral Distribution of Employment - FTEs

| Economic Impact 2024 | 2023 | +/- % | Sectors | Employment 2024 | 2023 | +/- % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 69.10 | 62.98 | 9.7% | Accommodation | 1,225 | 1,189 | 3.0% |
| 89.86 | 86.39 | 4.0% | Food & Drink | 973 | 1,011 | -3.7% |
| 30.02 | 28.81 | 4.2% | Recreation | 299 | 309 | -3.4% |
| 66.95 | 64.46 | 3.8% | Shopping | 525 | 550 | -4.6% |
| 64.64 | 62.13 | 4.0% | Transport | 249 | 259 | -3.8% |
| 320.57 | 304.78 | 5.2% | TOTAL DIRECT | 3,270 | 3,318 | -1.4% |
| 113.96 | 107.25 | 6.3% | Indirect | 786 | 800 | -1.8% |
| 434.53 | 412.03 | 5.5% | TOTAL | 4,056 | 4,118 | -1.5% |




## 1.2. Ein hymwelwyr

Mae nifer yr ymwelwyr sy'n aros yn y Parc Cenedlaethol wedi tyfu dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn 2015, roedd tua 4.1m o ymwelwyr, yr oedd 92.1% ohonynt yn ymwelwyr dydd.[41] Yn 2024, roedd canran yr ymwelwyr dydd yn cyfrif am 87% o'r 3.83m o ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol.

Effaith economaidd 4.1 miliwn o ymwelwyr yn 2015 oedd £239 miliwn (sy'n cyfateb i tua £319 miliwn yn 2024 gan ystyried cyfraddau chwyddiant)[42]. Yr effaith economaidd naw mlynedd yn ddiweddarach yn 2024 ar gyfer 3.83 miliwn o ymwelwyr yw £412 miliwn. Gellir priodoli'r twf i nifer y lleoedd hunanarlwyo sydd ar gael – mae llety â gwasanaeth wedi aros ar yr un lefel dros y degawd diwethaf, tra bod llety hunanarlwyo wedi tyfu'n sylweddol

### 1.2.1 Arolwg Ymwelwyr 2024 – canfyddiadau.

Yn ystod haf 2024, bu dau aelod o staff, gyda chymorth gwirfoddolwyr, wrthi'n cynnal arolwg o ymwelwyr mewn lleoliadau allweddol ar draws y Parc Cenedlaethol. Casglwyd 629 o ymatebion rhwng mis Mai a diwedd mis Awst 2024.

Daw 46% o'n hymwelwyr o Gymru a 48% o weddill y DU (Lloegr yn bennaf), gyda thua 6% o ymwelwyr tramor.

---

[41] Ffigurau sy'n deillio o ddata STEAM, system a gydnabyddir yn genedlaethol ac a ddefnyddir ledled y DU ar gyfer cymariaethau sy'n ymwneud â niferoedd, ymddygiadau ac effeithiau economaidd ymwelwyr

[42] https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy/inflation/inflation-calculator

Mae 82% o'n hymwelwyr yn cyrraedd y gyrchfan mewn car (neu ar feic modur), ac yn defnyddio'r dull teithio hwnnw i fynd o fan i fan ar ôl cyrraedd. Mae 9% o'r cerbydau hyn yn rhai trydan (sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y defnydd o gerbydau trydan).

Mae 41% o'n hymwelwyr yn deuluoedd â phlant/pobl ifanc yn eu harddegau.

Dewisodd 20% o'r rhai a gyfwelwyd gennym lety hunanarlwyo – y llety mwyaf poblogaidd. Roedd gwersylla hefyd yn boblogaidd (14%) ymhlith y rhai a gyfwelwyd gennym. Dewisodd 11% lety â gwasanaeth – llety gwely a brecwast neu westy.

Dywedodd ymwelwyr wrthym mai'r prif reswm y maent yn dod i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw i fynd am dro yn y golygfeydd hardd, a gwnaethant sôn eu bod yn hoffi cael ymarfer corff.

Dywedodd tua hanner yr ymwelwyr wrthym eu bod wedi bwyta allan mewn caffi, tafarn neu fwyty ac wedi ymweld â thref neu bentref yn ystod eu hamser yma. Soniodd llawer eu bod wedi mwynhau'r cyfle i syllu ar y sêr yn y Parc Cenedlaethol sydd hefyd yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.

Gwnaethom wahodd ein hymwelwyr i ddweud wrthym beth y gallem ei newid i wneud eu hymweliad hyd yn oed yn well ac ateb y mwyafrif ohonynt oedd "dim byd!" Dywedodd 5% wrthym fod parcio yn broblem iddynt.

Mae'r atebion hyn yn gyson â chanfyddiadau'r arolwg diwethaf o ymwelwyr a gynhaliwyd gan gwmni preifat ar gontract i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn 2019, ac yn debyg i ganfyddiadau arolygon blaenorol.

## 1.3 Data STEAM

### Data cymharol Steam – penawdau o'r 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru

| **Crynodeb o Ddata STEAM 2023** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Bannau Brycheiniog** | **Eryri** | **Arfordir Penfro** |
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth £M | 412.03 | 822.49 | 558.31 |
| Cyfanswm diwrnodau ymwelwyr (miliynau) | 5.39 | 12.2 | 7.87 |
| Diwrnodau ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 1.87 | 9 | 6.8 |
| Cyfanswm nifer yr ymwelwyr (miliynau) | 4 | 4.89 | 2.41 |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 0.48 | 1.69 | 1.34 |
| Nifer y diwrnodau ymwelwyr dydd (miliynau) | 3.52 | 3.21 | 1.08 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan dwristiaeth | 4,118 | 7,569 | 6,593 |
| % y diwrnodau ymwelwyr sy'n aros | 35% | 74% | 86% |
| % nifer yr ymwelwyr sy'n aros | 12% | 35% | 56% |

# Atodiad 2: Premiymau treth gyngor o fewn ffiniau'r Parc

| | Ail gartrefi | Cyfeiriad |
|---|---|---|
| Powys | Yng nghyfarfod y Cabinet ar 4 Chwefror 2022, penderfynwyd amrywio'r gyfradd premiwm a chodi premiwm Treth Gyngor o **75%** ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024, ac y byddai'r penderfyniad hwn yn parhau i fod yn effeithiol bob blwyddyn ariannol ar ôl hynny oni bai ei fod yn cael ei amrywio neu ei ddirymu.<br>Yng nghyfarfod y Cyngor ar 9 Mawrth 2016, penderfynwyd codi premiwm Treth Gyngor o **50%** ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/2018, ac y byddai'r penderfyniad hwn yn parhau i fod yn effeithiol bob blwyddyn ariannol ar ôl hynny oni bai ei fod yn cael ei amrywio neu ei ddirymu. | Premiymau'r Dreth Gyngor – Cyngor Sir Powys |
| Sir Fynwy | Cyflwynwyd premiwm o 100% ar gyfer ail gartrefi, er y bydd busnesau sy'n symud o'r rhestr fasnachol (ardrethi busnes) i'r rhestr ddomestig (treth gyngor) yn cael eu heithrio o'r premiwm am 12 mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd treth gyngor safonol yn dal i fod yn daladwy. | https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/where-your-council-tax-goes-2024/. |
| Sir Gaerfyrddin | Codi premiwm o 50% ar ail gartrefi i ddechrau, ac yna'i godi i 100% ym mis Ebrill 2025. | https://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/documents/g6253/Printed%20minutes%2008th-Mar-2023%2010.00%20County%20Council.pdf?T=1 |
| Torfaen | Roedd Torfaen yn ystyried a ddylid cyflwyno premiwm treth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, fel rhan o strategaeth gyffredinol i leihau | https://www.torfaen.gov.uk/cy/CouncilTaxAndBenefits/CouncilTax/Council-tax-premiums/Council-Tax- |

| | | |
|---|---|---|
| | nifer yr eiddo gwag a chynyddu cyfleoedd tai lleol. | premiums-for-long-term-empty-properties-and-second-homes.aspx |
| Rhondda Cynon Taf | O 1 Ebrill 2024, bydd pob ail gartref yn ddarostyngedig i bremiwm treth gyngor o 100%. | https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/CouncilTax/Counciltaxpremiums.aspx |
| Blaenau Gwent | Dim ond un ail gartref a gofrestrwyd ond o 1 Medi 2025, bydd premiwm o 100% yn cael ei weithredu ar ail gartrefi | https://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=1134&MId=2739&Ver=4&LLL=0 |
| Merthyr Tudful | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Ar hyn o bryd, mae perchnogion ail gartrefi yn gyfrifol am dalu 100% o dreth gyngor (h.y. y gyfradd safonol), a bydd hyn yn parhau tan 31 Mawrth 2024. Ar hyn o bryd, mae 266 o ail gartrefi yn y fwrdeistref sirol. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 8 Mawrth 2023, penderfynwyd codi premiwm Treth Gyngor o **100%** ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/2024. | https://www.merthyr.gov.uk/resident/council-tax/council-tax-premiums/?lang=cy-GB& |

Gwybodaeth o wefannau Awdurdodau Lleol.

# Atodiad 3: Strategaethau blaenorol sy'n ymwneud â thwristiaeth

Y strategaethau allweddol a ysgrifennwyd ar ran y gyrchfan sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymwelwyr ac a ragflaenodd y strategaeth hon yw:

- **Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog 2017-2022** gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cyrchfan 2017-2020
- **Cynllun Rheoli Ymwelwyr Bannau Brycheiniog** (2015)
- **Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy 2022**

## Atodiad 3.1.1 Y blaenoriaethau ar gyfer Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog 2017-2022

**Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog 2017-2022** gan gynnwys **Cynllun Gweithredu Cyrchfan 2017-2020** yw'r strategaeth ddiweddaraf sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth a thwristiaeth gynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ysgrifennwyd y strategaeth hon gan aelodau'r bartneriaeth rhwng staff yr Awdurdod a Twristiaeth Bannau Brycheiniog (sefydliad aelodaeth â thâl sy'n cynrychioli buddiannau busnesau twristiaeth o fewn y Parc Cenedlaethol ac ar hyd ei ffin). Roedd y strategaeth yn ystyried ymgynghoriad a gynhaliwyd â rhanddeiliaid ac o fewn yr Awdurdod.

### Atodiad 3.1.1 Y blaenoriaethau ar gyfer Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog 2017-2022

Yr her allweddol a nodwyd gan y strategaeth oedd creu cynnig mwy cydgysylltiedig i ymwelwyr, gan becynnu gweithgareddau, atyniadau, lletygarwch, trafnidiaeth a llety yn effeithiol. Roedd defnydd eang o "frand newydd y gyrchfan" (a gafodd ei ryddhau cyn y strategaeth) yn cael ei ystyried yn sbardun allweddol i gyflawni hyn – gan gysylltu'r busnesau â'r gyrchfan, a chynnig ffotograffiaeth am ddim a logo wedi'i gynllunio'n benodol i helpu i bennu hunaniaeth weledol gryfach ar gyfer y gyrchfan wrth iddi gael ei marchnata gan y busnesau ynddi. Yn anffodus, cafodd y dyheadau hyn eu goddiweddyd gan gyfres o ddigwyddiadau, gan gynnwys materion yn ymwneud â chyllid cyhoeddus a'r pandemig byd-eang, ac nid oedd modd cyflawni rhai ohonynt.

Amlinellodd y Strategaeth gyfres o ymrwymiadau a gweithgareddau allweddol yr oedd yn bwriadu eu cyflawni ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn yr atodiad isod, ynghyd â sylwebaeth ar y graddau y cawsant eu cyflawni.

Roedd llwyddiant strategaeth 2017-22 wedi'i seilio'n rhannol ar ennill grantiau drwy Croeso Cymru. Fel y soniwyd uchod (o dan effeithiau), gwelwyd gostyngiad graddol mewn adnoddau ac yna cafodd Covid effaith arnynt.

Roedd y strategaeth yn nodi pedwar dyhead clir ar gyfer twristiaeth ym Mannau Brycheiniog fel

- Enghraifft falch o gyrchfan gynaliadwy sy'n cael ei chefnogi gan ei chymunedau
- 'Cymydog da' sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at y ddarpariaeth a'r economi ranbarthol
- Sectorau preifat a gwirfoddol bywiog sy'n cymryd yr awenau o ran croesawu ymwelwyr a'r ddarpariaeth i dwristiaid
- Mwy o resymau dros ymweld yn amlach â'r Parc Cenedlaethol trwy gydol y flwyddyn

I drafod y rhain yn eu trefn:

- **Enghraifft falch o gyrchfan gynaliadwy sy'n cael ei chefnogi gan ei chymunedau** – Amlinellir cyflawniadau sy'n ymwneud â'r nod canmoladwy, uchelgeisiol hwn isod ond cafodd ymdrechion eu rhwystro gan ddiffyg cyllid ac effeithiau'r pandemig.
- **'Cymydog da' sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at y ddarpariaeth a'r economi ranbarthol –**

Awdurdodau Lleol cyfagos

Lluniwyd strategaeth Powys ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol yn 2024. Mae'n argymell y dylid annog ymwelwyr i fwynhau ymweld â'r trefi a'r pentrefi marchnad i gael profiad dilys a chadarnhaol a allai fod o fudd i'r busnesau a'r opsiynau trafnidiaeth, o bosibl. Bydd yn bwysig ymgynghori â'r cymunedau hynny a nodi opsiynau addas ar gyfer lleoedd parcio a thoiledau cyn iddi gael ei rhoi ar waith.

- **Sectorau preifat a gwirfoddol bywiog sy'n cymryd yr awenau o ran croesawu ymwelwyr a'r ddarpariaeth i dwristiaid**: yn ystod cyfnod y strategaeth, cymerodd y sectorau preifat a gwirfoddol yr awenau wrth groesawu ymwelwyr a darparu ar gyfer twristiaid, gan fod adnoddau yn y sector cyhoeddus wedi crebachu'n sylweddol. Mae'r drefn newydd yn gofyn am hyd yn oed mwy o waith partneriaeth a defnydd gofalus o arian grant sy'n lleihau'n barhaus i greu'r effaith fwyaf posibl ar gyfer sector.

- **Mwy o resymau dros ymweld yn amlach â'r Parc Cenedlaethol trwy gydol y flwyddyn.** Gallai rhai mentrau a ddechreuwyd yn hyn o beth cyn y pandemig gael eu hailgychwyn (gan ddefnyddio'r gwaith sydd wedi'i gwblhau eisoes) – Diwrnodau Gwych Allan, er enghraifft.

### Atodiad 3.1.3 Strwythurau pwyllgorau

Mae fforwm, a elwid yn wreiddiol yn Weithgor Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy, yn parhau o'r Strategaeth wreiddiol – yr enw arno nawr yw'r Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy, ac mae ei haelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r awdurdodau unedol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a chynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a Twristiaeth Bannau Brycheiniog. Mae wedi parhau i gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

Daeth y grŵp marchnata gweithgar iawn blaenorol, a fynychwyd gan gynrychiolwyr o dimau twristiaeth a chyfathrebu'r Awdurdod, Twristiaeth Bannau Brycheiniog a Phowys, i ben tua 2020.

Mae angen i'r cytundeb partneriaeth rhwng Twristiaeth Bannau Brycheiniog a'r Awdurdod, a oedd yn sail i'r wefan hyrwyddo cyrchfan, gael ei ailystyried a'i ddiwygio wrth i'r wefan ar ei newydd wedd gael ei chyflwyno yn 2025.

## Atodiad 3.2 Cynllun Rheoli Ymwelwyr Bannau Brycheiniog 2015

Ysgrifennwyd **Cynllun Rheoli Ymwelwyr Bannau Brycheiniog** gan ymgynghorwyr allanol (a ariannwyd trwy Collabor8) ac fe'i mabwysiadwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn 2015.

Mae'r cynllun hwn yn defnyddio amrywiaeth o ddata i asesu effaith ymwelwyr ar y Parc Cenedlaethol. Mae'r dadansoddiad o bryderon rhanddeiliaid fwy neu lai yr un fath heddiw ag yr oedd ddeng mlynedd yn ôl.

O ran ffermio a rheoli tir, effeithiau ceir a chŵn oedd y materion allweddol a nodwyd fel problemau negyddol (ac maent yn parhau i fod yn faterion allweddol). Roedd barn y rhai â phrosiectau arallgyfeirio ffermydd yn llai negyddol. Roedd porwyr yr oedd ymwelwyr, cŵn a thraffig yn effeithio arnynt yn teimlo nad oedd eu pryderon yn cael eu clywed a gwnaethpwyd awgrymiadau ynghylch gorfodi rheoliadau sy'n ymwneud â thraffig a rheoli cŵn.

#### Barn trigolion lleol


Mae'r cynllun yn sôn, yn yr arolwg o berchnogion tai yn y parc a gynhaliwyd yn 2013, bod y mwyafrif o drigolion yn ystyried bod twristiaeth yn ffynhonnell incwm gadarnhaol i fusnesau unigol a'r ardal. Fodd bynnag, mae materion negyddol sy'n deillio o barcio ceir yn arbennig yn cael effaith uniongyrchol ar rai.


Mae'r cynllun yn disgrifio syniadaeth bod swyddi ym maes twristiaeth yn dymhorol ac yn talu'n wael. Er bod hynny'n wir i rai staff, cafodd ei herio gan y sector twristiaeth yn 2015. Nododd busnesau fod y darlun yn fwy cymhleth, a bod llety yn aml yn cael ei weithredu gan y perchennog. Efallai na fydd y busnes yn cyflogi staff eraill yn uniongyrchol ond gall perchnogion ennill incwm rhesymol o'r busnes.


## Atodiad 3.3 Strategaeth a Chynllun Gweithredu Trafnidiaeth Gynaliadwy Sero Net Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Chwefror 2023


Mae'r strategaeth yn argymell y dylid gweithio i ddechrau ar ymyl ddeheuol y Parc Cenedlaethol. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus cryfach a llai o bobl yn berchen ar geir yn y de ar hyn o bryd. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn yr ail flwyddyn (2025) o gynnig tocynnau bws â chymhorthdal o Aberhonddu neu Ferthyr Tudful i Ben y Fan ac oddi yno. Yn ystod y flwyddyn gyntaf (2024), gwnaethpwyd dros 1000 o deithiau â chymhorthdal. Ariannodd yr Awdurdod fysiau ychwanegol ar y llwybrau hefyd. Cafodd y llwybrau bysiau dan sylw – T4 a T14 – eu trosglwyddo'n ôl i Trafnidiaeth Cymru yn 2026. Nid yw'r profiad parcio a theithio llawn a ragwelwyd yn wreiddiol yn y Strategaeth wedi'i wireddu oherwydd nad oedd modd trefnu neu ariannu'r newidiadau angenrheidiol i'r seilwaith, gan gynnwys arwyddion o'r A470 a lleoedd parcio pwrpasol, o fewn y prosiect gwreiddiol.

# Atodiad 4: Arolwg ymwelwyr 2024






How did you get to the Park this trip %
Car, van (not electric) or motorbike;
Coach/organised trip
Electric Vehicle (including hybrid);
Public transport;
Walked
Camper van/motor home
Bicycle
Taxi
0
10
20
30
40
50
60
70
80
90
%


England
Wales
Rest of World
Where do our visitors come from?
Rest of World 10%
England 46.1%
Wales 44%
Data from Visitor Survey 2024


What are the main reasons you have chosen to visit? (please tick any that apply to you)




8. Tell us about who came with you today - are you




9. Could you please tell us a bit more about the make up of your group



11. Tell us about anything you wish had been different during your visit?

399

Responses

Latest Responses

"Nothing"


"Nothing - everything was perfect (even the weather)"

...

19 respondents (5%) answered parking for this question.





Please tick any of these you will do, or have done, during this trip to the National Park?




Tell us about who came with you today - are you

| | |
|---|---|
| by yourself | 44 |
| with friends | 101 |
| with family (including children under 16) | 189 |
| with family (everyone older than 16) | 71 |
| a couple | 156 |
| part of an organised group | 65 |
| Other | 6 |




Could you please tell us a bit more about the make up of your group

| | |
|---|---|
| are you with anyone aged under 16 | 228 |
| are you with anyone aged over 16 to 24 | 163 |
| are you with anyone aged 25 to 66 | 503 |
| are you with anyone aged 67 or older | 60 |



# Atodiad 5: data cymharol ar ymwelwyr â Pharciau Cenedlaethol y DU (yn nhrefn esgynnol nifer yr ymwelwyr blynyddol ar gyfartaledd).

| Parc Cenedlaethol | Poblogaeth | Ymwelwyr (m) | Diwrnodau Ymwelwyr (m) |
|---|---|---|---|
| Northumberland | 1,848 | 1.62 | 1.88 |
| Exmoor | 10,192 | 1.98 | 2.7 |
| Cairngorms | 17,000 | 2.14 | 4.16 |
| Arfordir Penfro | 20,922 | 2.41 | 7.87 |
| Dartmoor | 34,124 | 2.57 | 3.7 |
| Loch Lomond a'r Trossachs | 15,600 | 2.76 | 4.53 |
| Bannau Brycheiniog | 33,485 | 3.99 | 5.39 |
| New Forest | 34,166 | 4.15 | 6.27 |
| Eryri | 24,416 | 4.89 | 12.20 |
| Yorkshire Dales | 22,798 | 5.08 | 6.66 |
| Broads | 6,275 | 7.36 | 9.61 |
| North Yorkshire Moors | 22,935 | 7.77 | 10.19 |
| Peak District | 35,901 | 13 | 12.64 |
| Lake District | 38,993 | 16.4 | 27.21 |
| South Downs | 113,339 | 19.51 | 20.37 |
| Exmoor | 10,192 | 1.98 | 2.7 |

Data poblogaeth o **https://www.nomisweb.co.uk/query/asv2htm**
Data ymwelwyr o Steam

# Atodiad 6: ymgynghoriad

Wrth baratoi'r Strategaeth hon, defnyddiwyd ymgynghoriad â'r canlynol:

Partneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy – 8 Awdurdod Lleol

Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog

Twristiaeth Bannau Brycheiniog (h.y. cynadledda, rhwydweithio a theithiau ymgyfarwyddo â busnesau)

Digwyddiadau hyfforddi Llysgenhadon Bannau Brycheiniog

Cyfarfodydd Cynghorau Tref:

- Crucywel
- Penderyn a Hirwaun

- Aberhonddu
- Talgarth
- Llanymddyfri

Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llangatwg

Cynlluniau Tref – Aberhonddu, Crucywel

Aelodau a staff Awdurdod y Parc Cenedlaethol

Sectorau trafnidiaeth a thwristiaeth Cyngor Sir Powys

Tîm Twristiaeth Sir Fynwy

Ardal Gwella Busnes Swydd Henffordd

Tîm Twristiaeth Sir Gaerfyrddin

Partneriaeth Bro’r Sgydau

Tîm Sgydau Cyfoeth Naturiol Cymru

**Amserlen**

Yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2024, cytunodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar y broses, a chynhaliwyd dau weithdy ar gyfer Aelodau’r Awdurdod, un yn 2024 a’r ail yn 2025.

Mae Twristiaeth Bannau Brycheiniog yn cynrychioli busnesau lleol sy’n gweithio ym meysydd twristiaeth a lletygarwch. Ceir manylion am ei rôl a’i berthynas ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn adran 10. Ymgynghorwyd â Twristiaeth Bannau Brycheiniog ar flaenoriaethau ac iteriadau gwahanol o’r Strategaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac mewn cyfarfodydd aelodau drwy gydol 2024 a 2025.

Gwnaethpwyd cyflwyniad i Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru ym mis Medi 2025, a fynychwyd gan gynrychiolwyr o fusnesau, Twristiaeth Canolbarth Cymru, Twristiaeth Bannau Brycheiniog a Croeso Cymru. Cafodd y cyflwyniad ei groesawu a chynigiwyd adborth adeiladol.

Mae cyflwyniadau wedi’u gwneud ar gyfer ymgynghori yn:

- Cyfarfodydd partneriaeth Bro’r Sgydau (Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr cymunedol lleol) ym mis Ebrill a mis Hydref 2025
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Grŵp darparwyr gweithgareddau awyr agored De Cymru ym mis Rhagfyr 2024
- I dimau twristiaeth yn ein hawdurdodau lleol a’r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd drwy’r Bartneriaeth Cyrchfan Gynaliadwy.

Anfonwyd gwahoddiadau i ymgysylltu at gynghorau tref, a chafwyd ymateb cadarnhaol gan y canlynol:

- Cyngor Tref Aberhonddu
- Cyngor Tref Crucywel
- Cyngor Tref Llanymddyfri
- Cynghorau Tref Hirwaun a Phenderyn
- Cyngor Tref Talgarth

Aeth y swyddog i'w cyfarfodydd yn ystod 2025 i drafod eu dyheadau ar gyfer twristiaeth ac i sôn am flaenoriaethau'r Strategaeth.

Ymgynghorwyd â'r Fforwm Mynediad Lleol ym mis Rhagfyr 2024 a mis Hydref 2025.